

Adolygiad o Gyfyngiadau'r Coronafeirws - 1 Ebrill 2021 ASESIAD EFFAITH CRYNO

Cyflwyniad

Cafodd Asesiad Effaith Cryno ei lunio ym mis Rhagfyr 2020 ar ôl cyflwyno system o lefelau rhybudd yng Nghymru, sydd ar gael [yma](#). Yn dilyn yr Adolygiad 21 Diwrnod ym mis Chwefror 2021, lluniwyd Asesiad Effaith Cryno pellach, sydd ar gael [yma](#). Cafodd yr Asesiad Effaith Cryno diweddaraf ei lunio yn dilyn yr Adolygiad 21 Diwrnod ar 11 Mawrth, sydd ar gael [yma](#).

Mae'r Cynllun Rheoli Coronafeirws diwygiedig ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru [yma](#).

Nod y ddogfen hon yw cofnodi asesiad o effaith y mesurau llacio a roddwyd ar waith neu a nodwyd yn yr Adolygiad 21 Diwrnod ar 1 Ebrill 2021 ar wahanol ddemograffeg yn y gymdeithas yng Nghymru.

Ym mis Rhagfyr, daeth 'amrywiolyn Caint' i'r amlwg, sef y prif amrywiolyn bellach ac mae'n fwy heintus. Arweiniodd hyn at gyfyngiadau llymach ar Lefel Rhybudd 4 (ee atal y mwyafrif helaeth o ddysgwyr ym myd addysg rhag dysgu wyneb yn wyneb). Ers hynny, mae'r sefyllfa o ran iechyd yng Nghymru wedi gwella sydd wedi golygu bod modd llacio'r cyfyngiadau rywfaint yn adolygiadau mis Chwefror a mis Mawrth. Mae'r gwelliannau wedi parhau ac wedi cael eu cynnal sy'n golygu bod modd symud yn ofalus ac yn raddol i Lefel Rhybudd 3 yng Nghymru.

Dyma'r prif fesurau llacio a roddwyd ar waith yn yr Adolygiad 21 Diwrnod ar 1 Ebrill 2021:

- **Dileu'r cyfyngiadau mewn ysgolion a lleoliadau addysgol eraill, sy'n golygu dychwelyd yn llawn i ddysgu ar y safle o 12 Ebrill ymlaen**
- **Dileu cyfyngiadau i ganiatáu i bob dysgwr ôl-16 ddychwelyd i golegau a chanolfannau dysgu o 12 Ebrill ymlaen, ar sail "dysgu cyfunol" yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.**
- **Dileu'r cyfyngiadau i ganiatáu i bob siop nad yw'n hanfodol agor o 12 Ebrill ymlaen, yn amodol ar gadw pellter cymdeithasol a mesurau eraill i ddiogelu siopwyr a gweithwyr**
- **Dileu'r cyfyngiadau ar y diwydiannau gwasanaethau cyswllt agos sy'n weddill i ganiatáu iddynt ailagor o 12 Ebrill ymlaen, gan barhau i wahardd triniaethau 'risg uchel' penodol.**

(hy, y rheini sy'n golygu cyswllt corfforol â'r wyneb).

Cefndir deddfwriaethol

Daeth Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 i rym ar 26 Mawrth 2020, a chawsant eu disodli wedyn gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Rhif 3) a (Rhif 4) (Cymru) 2020. Mae modd gweld fersiwn wedi'i chydgrynhai o'r Rheoliadau diweddaraf [yma](#).

Mae'r Asesiad Effaith Cryno hwn yn ymwneud â'r diwygiadau a wnaed i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 o ganlyniad i'r Adolygiad 21 Diwrnod ar 1 Ebrill 2021.

Adolygu rheoliadau cyfyngiadau

Adolygir y Rheoliadau bob tair wythnos yn unol â'r wybodaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf.

Asesiadau o'r Effaith

Mae'r asesiadau canlynol o'r effaith, sy'n ymwneud â'r mesurau llacio a roddwyd ar waith, i'w gweld yng ngweddill y ddogfen hon:

- i. Addysg
- ii. Manwerthu nad yw'n hanfodol
- iii. Gwasanaethau cyswllt agos

Ar ben hynny, bydd asesiad o'r effaith ar hawliau plant ac asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cyhoeddi ar wahân ar wefan Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ailagor ysgolion yn raddol.

DYCHWELYD YN LLAWN I DDYSGU AR Y SAFLE MEWN YSGOLION A LLEOLIADAU ADDYSGOL ERAILL

Dychwelyd i adeiladau ysgol

Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant wedi cyhoeddi canllawiau sy'n nodi mai ychydig iawn o blant sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol ac, o ganlyniad, nid yw'n ofynnol i nifer o'r plant y cynghorwyd iddynt warchod yn flaenorol wneud hynny mwyach. Rydym yn disgwyl i rai teuluoedd deimlo'n bryderus am ddychwelyd i ddysgu ac addysgu ar y safle, ac mewn nifer o achosion gall hyn fod yn berthnasol i sefyllfa lle mae dysgwyr neu aelod o'r teulu yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol ac wedi bod yn gwarchod. Dylai lleoliadau ac awdurdodau lleol barhau i weithio gyda theuluoedd i helpu dysgwyr i gael mynediad at y cwricwlwm a lleihau'r tarfu ar addysg dysgwyr. Os nad yw dysgwyr yn gallu dod i'r lleoliad oherwydd ei fod yn hunanynysu, dylai'r lleoliad barhau i ymgysylltu'n rheolaidd â'r dysgwyr o bell yn unol â'n [Canllawiau dysgu](#).

Mae pob un o'r naw grŵp blaenoriaeth cyntaf wedi cael cynnig brechiad. Rydym yn cydnabod bod y rhaglen frechu'n symud yn gyflym ledled Cymru, a chyn belled â bod y cyflenwad yn parhau, bydd nifer y staff addysg sy'n cael eu brechu yn parhau i gynyddu.

Bydd yn bwysig i arweinwyr ysgolion ystyried opsiynau ymarferol ar gyfer y ffordd orau o gefnogi eu gweithlu addysgu a chynorthwywyr dosbarth wrth i'r holl staff a dysgwyr ddychwelyd i adeiladau'r ysgol, ac wrth i'r ddarpariaeth o bell sy'n ofynnol o ganlyniad i drefniadau COVID-19 leihau.

Mae canllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion a lleoliadau yn nodi cyfres o fesurau lliniaru pwysig y gofynnir i Awdurdodau Lleol ac ysgolion a lleoliadau eu rhoi ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys asesiadau risg cynhwysfawr; pecyn cymorth ar gyfer pobl o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; trefniadau glanhau gwell; hylendid dwylo ac anadlol da; awyru; defnyddio gorchuddion wyneb tair haen o ansawdd uchel lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys dysgwyr mewn lleoliadau oed ysgol uwchradd (mewn ystafelloedd dosbarth yn unig) os nad oes modd cadw pellter cymdeithasol; bod yn wylidwrus am symptomau; a goruchwyllo, profi a rheoli achosion.

Ar gyfer aelodau eraill o'r gweithlu, gan gynnwys glanhawyr, staff arlwyo a thechnegwyr, bydd angen ystyried ffactorau tebyg i sicrhau bod staff yn gallu dychwelyd i'r gwaith yn ddiogel, gan ystyried ymwybyddiaeth o ffactorau sy'n unigryw i bob rôl.

Mae cymorth ariannol ychwanegol wedi cael ei ddarparu i gefnogi Awdurdodau Lleol gyda chostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dychwelyd dysgwyr yn raddol.

Anabledd

Staff ag anableddau

Mae'n debygol y bydd angen i nifer uwch o staff ag anableddau corfforol mewn ysgolion a lleoliadau gymryd rhagofalon wrth dychwelyd i'r safle o'i gymharu â staff heb anabledd. Bydd rhai o'r rhain yn eithriadol o agored i niwed yn glinigol ac efallai eu bod wedi bod yn gwarchod yn flaenorol.

Ar gyfer aelodau staff sydd ag anghenion cymorth ychwanegol, bydd yn bwysig bod unrhyw newidiadau i'r drefn yn cael eu cyfleu'n glir.

Lles meddyliol staff

Efallai y bydd staff sy'n dioddef o salwch meddwl wedi gweld bod cau addysg ar y safle yn cael mwy o effaith negyddol ar eu lles na'u cyfoedion. Efallai y bydd yr un grŵp o bobl yn fwy tebygol o fod yn bryderus am ddysgwyr yn dychwelyd yn llawn i ddarpariaeth ar y safle, ac rydym yn cydnabod y gallai staff sy'n gweithio ar y safle drwy ddychwelyd yn raddol fod wedi cael profiadau gwahanol. Mae cymorth iechyd meddwl a lles wedi'i nodi yng nghanllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion.

Profion rheolaidd

Rydym yn cydnabod y bydd mwy o ddysgu ar y safle mewn ysgolion a lleoliadau yn arwain at fwy o symudedd cymunedol gyda disgyblion a rhieni a gwarcheidwaid yn teithio mwy. Rydym hefyd yn deall y gallai llacio yn y dyfodol arwain at fwy o symudedd cymunedol.

Mae canllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion yn rhoi gwybodaeth am y mesurau y gall ysgolion a lleoliadau ac unigolion eu cymryd i gadw'n ddiogel. Mae'r canllawiau gweithredol diweddaraf ar gyfer 12 Ebrill yn cynnwys gwybodaeth am brofion asymptomatig ar gyfer ysgolion a lleoliadau er mwyn canfod oedolion asymptomatig yn gyflym i leihau'r tebygolrwydd o glystyrau a brigiadau mewn lleoliadau. Mae profion wedi bod ar gael i'r holl staff sy'n gweithio mewn ysgolion a lleoliadau, gan gynnwys gweithredwyr cludiant ysgolion, athrawon peripatetig a staff cyflenwi ers mis Chwefror 2021.

Rhyw

Cyfrifoldebau gofalu

Rydym yn cydnabod bod menywod sy'n staff yn fwy tebygol o fod wedi bod yn delio â chyfrifoldebau gofalu a helpu eu plant i ddysgu gartref, a hynny wrth weithio gartref neu wrth weithio yn yr ysgol yn cefnogi dysgwyr agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol. Wrth i ddysgwyr ddychwelyd i ysgolion a lleoliadau, bydd rhai staff sy'n rhieni neu'n ofalwyr yn ddibynnol ar sicrhau bod gofal plant ar gael i'w galluogi i ddychwelyd i'w patrymau gweithio blaenorol neu ddiwygiedig eu hunain.

Mae menywod sy'n rhieni neu'n ofalwyr, ac sy'n rhan o'r gweithlu addysg ehangach, er enghraifft cynorthwywyr dysgu a glanhawyr, hefyd yn debygol o fod yn ddibynnol

ar sicrhau bod gofal plant ar gael i'w galluogi i ddychwelyd i'w patrymau gweithio dan gontract. Rydym yn cydnabod bod cymorth cofleidiol ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol yn bwysig i lawer o deuluoedd er mwyn rhoi hyblygrwydd o ran trefniadau gweithio.

Diogelwch a lles

Mae risg bod cam-drin domestig wedi cynyddu yn ystod y cyfyngiadau symud. Ar gyfer staff y mae hyn yn effeithio arnynt, mae dychwelyd i'r gweithle yn debygol o gael effaith gadarnhaol yn gyffredinol, ond dylai cymorth fod ar gael i gefnogi'r aelodau staff hyn.

Iechyd menywod

Ar unrhyw un adeg, bydd cyfran o'r gweithlu addysg benywaidd yn delio ag effeithiau'r menopos a materion iechyd mislifol eraill fel endometriosis, sy'n aml yn wanychol. Gall straen, sydd wedi cynyddu i rai o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud, waethygu nifer o'r symptomau sy'n gysylltiedig â'r cyflyrau hyn a gall fod yn heriol dychwelyd i safleoedd wedi'u haddasu mewn ysgolion, lle gallai mynediad at doiledau fod wedi newid. Gyda gweithleoedd yn symud tuag at fod yn 'ystyriol o'r menopos', dylai ysgolion ystyried sut maen nhw'n cynnig cymorth yn y cyd-destun hwn.

Ailbennu rhywedd

Efallai fod aelodau trawsryweddol o'r gweithlu wedi profi oedi o ran triniaeth cadarnhau rhywedd oherwydd COVID-19, a allai gael effaith negyddol ar iechyd meddwl a lles. Nid oes data ar gael i wybod faint o aelodau o'r gweithlu y gallai hyn effeithio arnynt.

Beichiogrwydd a mamolaeth

Dylai aelodau beichiog o'r gweithlu barhau i ddilyn y canllawiau diweddaraf a nodir yng nghanllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion, a dylai cyflogwyr gynnal asesiadau risg.

Dychwelyd i weithio

Bydd rhai aelodau o staff yn dychwelyd i'r gweithlu ar ôl absenoldeb mamolaeth ac ni fyddant wedi cael profiad o ddysgu gartref yn yr un modd â'u cydweithwyr.

Mae arbenigwyr wedi rhybuddio bod Covid-19 wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl mamau y tu hwnt i'r hyn a welir yn y boblogaeth gyffredinol, gyda'r cyfraddau gorbryder a gofnodwyd wedi mwy na dyblu. Dylid ystyried cynnal sesiynau cynefino ar eu cyfer cyn iddynt ailymuno â'r gweithlu.

Mannau crefyddol

Mae ein canllawiau gweithredol yn nodi y dylid defnyddio'r holl ofod sydd ar gael i helpu i gadw pellter cymdeithasol oddi wrth staff a dysgwyr, ac rydym yn deall bod hyn yn fwy heriol wrth i'r ddarpariaeth ddychwelyd yn llawn i'r safle. Lle y bo'n bosibl bod ystafelloedd yn cael eu hailwrpasu, dylid sicrhau bod darpariaeth ar gael o hyd i staff gael mynediad i fannau crefyddol ar adegau disgwylidig o'r dydd.

Lles

Rydym yn cydnabod bod cefnogi lles staff mewn cyfnod o gynyddu gweithrediadau ar y safle yn hollbwysig. Mae Adnodd Asesu Risg Cymru Gyfan yn galluogi staff i ystyried eu hiechyd a'u lles, ac i ddeall eu risg bersonol o ddatblygu symptomau mwy difrifol os byddant yn dod i gysylltiad â feirws COVID-19 fel risg isel, uchel neu uchel iawn.

Aelwydydd incwm isel

Er bod cau ysgolion a lleoliadau wedi achosi i rai aelodau o staff gael eu rhoi ar ffyrlo, a allai fod wedi lleihau eu hincwm misol, disgwylir y bydd cynyddu gweithrediadau yn caniatáu i'r bobl hynny ddychwelyd i'r gwaith ac i'w cyflog blaenorol.

Cofnod o'r Effeithiau yn ôl nodweddion gwarchoddedig

Plant a Phobl Ifanc

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
Oedran	Mae'n bosib y bydd colli'r ysgol, trefn arferol a chyswllt cymdeithasol yn cael effaith niweidiol ar blant a phobl ifanc.	Plant a phobl ifanc yw'r grwpiau y mae cau ysgolion a cholegau yn cael yr effaith fwyaf uniongyrchol arnynt.	Mae ysgolion a lleoliadau wedi bod ar agor i blant agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol ac ar gyfer mwy o grwpiau o ddysgwyr ers mis Chwefror eleni, fel rhan o'r broses o ddychwelyd yn raddol i ddysgu ar y safle. Roedd ein blaenoriaeth ar gyfer dychwelyd yn raddol yn canolbwyntio ar ein

			<p>dysgwyr ieuengaf yn gyntaf, gan gydnabod eu bod yn gweld dysgu o bell yn heriol iawn, gan symud ymlaen wedyn i'r pwyntiau pontio hollbwysig, gan gynnwys Blynyddoedd 11 ac 13. Mae'r cynnig hwn yn golygu bod pob dysgwr yn dychwelyd i addysgu ar y safle mewn amgylchedd rheoledig gyda mesurau diogelwch COVID ar waith. Mae'r mesurau'n seiliedig ar ganllawiau gweithredol, cyngor gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Iechyd Cyhoeddus Cymru a llywodraeth leol, ac yn seiliedig ar gyngor gwyddonol a thechnegol a roddwyd i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.</p>
Anabledd	<p>Gall peidio â mynd i'r ysgol neu'r coleg gael effaith fwy niweidiol ar blant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol neu arbennig.</p>	<p>Caiff dysgwyr agored i niwed eu nodi gan ddarparwyr addysg neu Awdurdodau Lleol (gan gynnwys gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant), fel unigolion a allai elwa o barhau i fynychu'r ysgol neu'r coleg ar sail amser llawn.</p>	<p>Gallai pob plentyn a pherson ifanc sy'n agored i niwed neu sydd â datganiad Anghenion Addysgol Arbennig fynychu eu hysgol neu goleg arferol fel arfer. Mae gallu mynd i'w hysgol neu eu lleoliad eu hunain yn lliniaru rhywfaint ar yr effaith gan ei fod yn rhoi mynediad iddynt at gefnogaeth gyfarwydd,</p>

			rhyngweithio cymdeithasol a threfn arferol. Rydym yn cydnabod effaith barhaus y pandemig ar gymorth i'r dysgwyr hyn.
Ailbennu Rhywedd	Dim	--	--
Beichiogrwydd a mamolaeth	Rydym yn deall y gallai rhai pobl ifanc sy'n dal yn mynychu ysgol neu goleg fod yn feichiog.	Mae astudiaethau o'r DU yn dangos nad yw menywod beichiog yn fwy tebygol na neb arall o fod yn ddifrifol wael oherwydd y coronafeirws, ond mae menywod beichiog wedi cael eu cynnwys ar y rhestr o bobl sy'n wynebu risg uwch fel rhagofal. Dylai menywod beichiog ddilyn canllawiau diweddaraf y llywodraeth ar gadw pellter cymdeithasol ac osgoi unrhyw un sydd â symptomau'r coronafeirws. Dylai menywod beichiog yn nhri mis olaf eu beichiogrwydd fod yn arbennig o ofalus o ran cadw pellter cymdeithasol.	Gall yr wybodaeth a'r negeseuon canolog sydd ar gael fod yn berthnasol a thawelu meddwl pobl.
Hil	Mae'n bosibl y bydd dysgu o bell yn cael effaith niweidiol ar rai dysgwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn enwedig o ran mynediad at dechnoleg.	Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: <i>How coronavirus has affected equality and human rights</i> , Hydref 2020	Fel rhan o'r rhaglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu', mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol a bydd y broses lawn o ddychwelyd i ddysgu

			<p>ar y safle yn dileu llawer o'r rhwystrau. Gan gydnabod y cynnydd sydd wedi'i wneud a'r amgylchiadau lle bydd angen mynediad a seilwaith yn y cartref o hyd (ee yn ystod cyfnodau o hunanynysu), mae ysgolion a lleoliadau'n cael eu hannog i gynnig amrywiaeth o sianeli cyfathrebu ar gyfer rhieni a gofalwyr, gan gynnwys opsiynau nad ydynt yn ddigidol ar gyfer y rheini sydd heb fynediad at dechnoleg. Gall pob dysgwr sydd â mynediad at dechnoleg elwa o lwyfan dysgu digidol Hwb yng Nghymru, gan gynnwys Office 365.</p>
Crefydd, cred a diffyg cred	<p>Mae'n bosibl y bydd y cau ysgol neu goleg â chymeriad crefyddol yn cael effaith niweidiol ar blant a phobl ifanc sy'n mynd iddynt, os mai'r ysgol neu'r coleg yw eu hunig fynediad at addoli ar y cyd neu ddysgu arall sy'n bwysig i'r unigolion hynny.</p>	<p>Efallai mai ysgol neu goleg yw'r unig gyfle i rai plant a phobl ifanc ymarfer arferion crefyddol gyda'u cyfoedion.</p>	<p>Drwy Hwb, y llwyfan dysgu digidol ar gyfer Cymru, mae gan ddysgwyr ac ymarferwyr o ysgolion a gynhelir fynediad at amrywiaeth o adnoddau dysgu ar-lein. Mewn amgylchiadau lle nad yw dysgwyr yn gallu mynd i'r ddarpariaeth ar y safle, ee wrth hunanynysu, gall fideogynadleda ddarparu profiad rhyngweithiol a chyfle</p>

			i gydweithio a chymryd rhan mewn arferion crefyddol drwy'r ysgol neu'r coleg mewn ffordd ddiogel a hygyrch. Ar y cyfan, mae'n bosibl y bydd disgwyl i'r broses o ddychwelyd at ddarpariaeth lawn ar y safle ddarparu mwy o gyfleoedd i gael mynediad at addoli ar y cyd neu ddysgeidiaeth arall.
Rhyw / Rhywedd	Mae pob dysgwr yn datblygu mewn gwahanol ffyrdd ac, er ei fod yn gymhleth, rydyn ni'n deall bod rhywedd yn gallu dylanwadu ar ddatblygiad gwybyddol, cyfranogiad a chyflawniad; er bod rhywedd hefyd yn gallu dangos bod rhwystrau a heriau eraill yn bodoli a allai gael mwy o effaith.	Gwybodaeth am gyrhaeddiad dros amser a thystiolaeth ryngwladol gan PISA (Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr) er enghraifft	Mae natur unigol dysgwyr a dysgu, a'r angen am gymorth wedi'i dargedu, yn cael ei gydnabod yn ein camau gweithredu i helpu plant a phobl ifanc i ddychwelyd i ysgolion a lleoliadau a symud y tu hwnt i COVID.
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim	--	--
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim	--	--
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Mae Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y cam nesaf hwn o gynyddu mynediad at ddysgu ar y safle wedi cael ei gynnal ar wahân.	Plant a phobl ifanc yw'r grwpiau y mae cau ysgolion a cholegau yn cael yr effaith fwyaf uniongyrchol arnynt.	Byddwn yn adeiladu ar y materion a nodwyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Mae Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gael ar wahân.
Aelwydydd incwm isel	Mae'n bosibl y bydd cau ysgolion a	<i>Arolwg Cenedlaethol Cymru, Defnydd o'r</i>	Gellir gweld bod dychwelyd yn llwyr i

	<p>cholegau yn cael effaith anghymesur ar ddysgwyr o gartrefi incwm isel sydd â mynediad cyfyngedig at ddyfeisiau digidol a'r rhyngwyd.</p>	<p><i>rhyngwyd a sgiliau digidol 2018-19</i></p>	<p>addysgu a dysgu ar y safle yn datrys llawer o'r problemau sy'n cael eu hachosi gan fynediad cyfyngedig at gysylltedd digidol. Fel rhan o'r rhaglen 'Cadw'n Ddiogel. Dal Ati i Ddysgu', mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Darparwyd cyllid ychwanegol i gefnogi'r dysgwyr hyn yn 2020. Ar ben hynny, mae ysgolion a lleoliadau'n dal i gael eu hannog i gynnig amrywiaeth o sianeli cyfathrebu ar gyfer rhieni a gofalwyr, gan gynnwys opsiynau nad ydynt yn ddigidol ar gyfer rhieni a gofalwyr sydd heb fynediad at dechnoleg mewn amgylchiadau lle mae'n bosibl y bydd angen dysgu rhai dysgwyr o bell, ee os ydynt yn hunanynysu.</p>
<p>Aelwydydd incwm isel</p>	<p>Mae'n bosibl y bydd cau ysgolion yn cael effaith niweidiol ar ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.</p>	<p>Mae rhai teuluoedd yn dibynnu ar ddarpariaeth prydau ysgol am ddim ar gyfer anghenion maeth ac iechyd eu plant. Mae data a gasglwyd gan Data Cymru wedi dangos bod cynnydd o 12,969 wedi bod yn</p>	<p>Caiff Awdurdodau Lleol eu hatgoffa bod dyletswyddau cyfreithiol o ran darparu prydau ysgol am ddim yn dal yn berthnasol drwy gydol y cyfnodau hyn o gau ysgolion a'u hailagor yn raddol ac yn llawn.</p>

		<p>nifer y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim – o 91,700 ddiwedd mis Mehefin 2020 i 104,669 ar 9 Rhagfyr 2020. Cynyddodd hyn i dros 105,000 erbyn diwedd mis Ionawr 2021, ac rydym yn disgwyl gweld cynnydd parhaus dros y misoedd nesaf.</p>	<p>Ar ben hynny, wrth drefnu i ddysgwyr cymwys gael prydau ysgol am ddim, mae'n rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion ac Awdurdodau Lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau na fydd neb, ac eithrio'r rheini sydd wedi'u hawdurdodi dan ddeddfwriaeth, yn gallu adnabod dysgwr fel un sy'n cael cinio ysgol am ddim. Mae rhagor o wybodaeth am brydau ysgol am ddim ar gael yn y Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau. Mae cymorth ychwanegol ar gael o hyd, gan gynnwys drwy'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad.</p>
--	--	---	--

Staff mewn ysgolion a lleoliadau, a theuluoedd

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
Oedran	Mae'n bosibl y bydd yr angen i ddarparu gofal plant a chymorth ychwanegol i'w plant wrth iddynt ddysgu gartref yn cael effaith niweidiol ar oedolion	Mae cau ysgolion wedi golygu bod llawer o rieni sy'n gweithio nad ydynt yn weithwyr hanfodol wedi gorfod gwneud trefniadau gyda'u	Rydym yn parhau i ddefnyddio ymgyrchoedd a rhwydweithiau i ddsbarthu gwybodaeth a chyngor i rieni a rhoi

	<p>oed gweithio sy'n rhieni.</p> <p>Lle nad yw gweithio gartref wedi bod yn opsiwn, bydd rhai o'r rhieni hyn wedi gorfod defnyddio gwyliau neu chwilio am waith arall, ac mewn rhai achosion byddant wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu wedi colli cyflogaeth. Gallai hyn i gyd yn ei dro arwain at gynnydd yn nifer yr aelwydydd incwm isel.</p>	<p>cyflogwyr i newid lleoliadau a phatrymau gweithio.</p> <p>Mae'r cyfyngiadau ar rwydweithiau gofal plant teuluol a chyfeillion ehangach hefyd wedi cael eu cyfyngu o dan y mesurau COVID-19 ehangach sydd ar waith.</p>	<p>sicrwydd iddynt, er enghraifft y rhaglen <i>Magu plant</i>. <i>Rhowch amser iddo</i> a ddefnyddir i gyfleu negeseuon i rieni; tudalen Facebook Dechrau'n Deg; a'n Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Fagu Plant, Gofal Plant, Dechrau'n Deg a Rhwydweithiau Teuluoedd yn Gyntaf. Mae ein hymgyrchoedd</p>
Oedran	<p>Gall yr angen i ddarparu cymorth ychwanegol gyda gofal plant ac addysgu gartref gael effaith niweidiol ar bobl hŷn sydd wedi ymddeol ac sy'n darparu gofal plant, ee gofalu am wyrion ac wyresau, ac maent yn fwy tebygol o fod â gwendidau iechyd a phryderon o ran trosglwyddo COVID. Mae hyn yn debygol o leihau wrth i fwy o bobl allu dychwelyd i ddysgu ar y safle.</p>	<p>Mae neiniau a theidiau wedi cael eu galw i helpu gyda gofal plant ac addysgu gartref lle nad yw rhieni sy'n gweithio wedi gallu gwneud trefniadau eraill. Gallai dychwelyd yn llawn i ddarpariaeth ar y safle leihau'r effaith ar neiniau a theidiau y gelwir arnynt i helpu gyda gofal plant, gan gynyddu'r amser y mae pob dysgwr yn ei dreulio mewn ysgolion/lleoliadau.</p>	<p>sicrwydd diweddar wedi canolbwyntio ar Gymru'n Dal Ati i Ddysgu, Profi a Chadw Cymru'n Ddiogel.</p>
Oedran	<p>Bydd cynyddu gweithrediadau ar y safle yn golygu y bydd angen mwy o staff i weithio ar y safle ac i deithio rhwng y cartref a'u lleoliadau. Gall hyn gynnwys aelodau o staff hŷn, y gwyddom eu bod mewn mwy o berygl o ddatblygu symptomau</p>	<p>Er bod hyn yn galluogi aelodau staff i ailafael mewn dysgu wyneb yn wyneb gyda dysgwyr, mae'n hysbys bod oedran yn ffactor wrth bennu'r risg o ddatblygu symptomau mwy difrifol o Covid-19.</p>	<p>Mae'r Adnodd Asesu Risg Cymru Gyfan a ddatblygwyd ar y cyd â'r sector yn ystyried oedran ac yn helpu'r unigolyn a'i gyflogwr i gymryd camau ychwanegol i liniaru'r risgiau hyn. Mae hyn yn ychwanegol at y mesurau lliniaru a gyflwynwyd ar gyfer</p>

	<p>mwy difrifol o COVID-19. Efallai y bydd angen dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Efallai fod gan aelodau staff hŷn bryderon hefyd ynghylch gwendidau iechyd anwyliaid yn eu cartref neu mewn trefniadau gofal.</p>		<p>dysgwyr, staff ac eraill ar safleoedd ysgolion. Bydd gan yr adnodd asesu risg oblygiadau uniongyrchol a thymor hir i'r unigolion hynny sy'n asesu eu ffactorau risg personol. Yn y tymor hwy, bydd rhai pobl a allai fod wedi bod yn agored i niwed wedi cael eu diogelu rhag haint COVID-19 difrifol neu bosibilrwydd o farwolaeth. Yn ogystal â'r camau sy'n cael eu cymryd ar unwaith, yn y tymor hwy bydd unigolion yn gallu nodi a deall gwelliannau i'w ffordd o fyw a allai, os gweithredir arnynt, gael effeithiau tymor hwy ar eu hiechyd a'u lles.</p> <p>Mae manteision tymhorol y tywydd cynhesach a'r diwrnodau hwy, yn ogystal â'r cynnydd mewn symudedd cymunedol, yn cael eu cydnabod fel ffactorau a allai gael effaith gadarnhaol a negyddol.</p>
Anabledd	<p>Gallai'r angen i ddarparu gofal plant ychwanegol a chymorth tra oedd yr ysgolion ar gau fod wedi cael effaith anghymesur ar rieni a gofalwyr ag anableddau.</p>	<p>Gall anableddau corfforol ac anableddau dysgu effeithio ar allu rhiant i gyflawni rôl gofalwr ac addysgwr ar sail amser llawn, hyd yn oed am gyfnod byr.</p>	<p>Mae canllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai rhai rhieni a gofalwyr fod yn fwy pryderus ynghylch eu plant yn dychwelyd i ddysgu ar y safle. Mae'n hanfodol bod ysgolion</p>

			yn mynd ar drywydd pryderon ynghylch ymgysylltiad, neu les dysgwr. Dylai Ysgolion ac Awdurdodau Lleol weithio gyda theuluoedd i helpu dysgwyr i gael mynediad at y cwricwlwm a lleihau'r tarfu ar addysg dysgwyr.
Anabledd	Er mwyn cynyddu gweithrediadau ar y safle, bydd angen mwy o staff i weithio o safleoedd ysgolion. Gall hyn gynnwys staff ag anableddau.	Mae'n debygol y bydd angen i nifer uwch o staff ag anableddau corfforol mewn ysgolion a lleoliadau gymryd rhagofalon wrth ddychwelyd i'r safle o'i gymharu â staff heb anabledd.	Drwy ein canllawiau gweithredol, rydym yn pwysleisio y dylai staff siarad â'u cyflogwyr am sut byddant yn cael eu cefnogi. Bydd hyn yn arbennig o bwysig pan fydd gofyn i aelodau staff ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb.
Ailbennu Rhywedd	Rydym yn cydnabod y gallai aelodau trawsryweddol o'r gweithlu fod wedi profi oedi o ran triniaeth cadarnhau rhywedd oherwydd COVID-19, a allai gael effaith negyddol ar iechyd meddwl a lles. Nid oes data ar gael i wybod faint o aelodau o'r gweithlu y gallai hyn effeithio arnynt.	--	--
Beichiogrwydd a mamolaeth	Mae'n bosibl y bydd yr angen i ddarparu gofal plant ychwanegol a chymorth ar gyfer addysgu gartref yn cael effaith niweidiol ar fenywod beichiog a'r rheini sydd â phlant ifanc iawn, yn	Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: <i>How coronavirus has affected equality and human rights</i> , Hydref 2020	Rydym yn defnyddio ymgyrchoedd a rhwydweithiau i ddosbarthu gwybodaeth a chynghor i rieni a rhoi sicrwydd iddynt, er enghraifft, y rhaglen <i>Magu plant. Rhowch</i>

	<p>ogystal â phlant hŷn sy'n mynd i'r ysgol neu'r coleg.</p> <p>Mae'r rheini sydd wedi dod yn ofalwyr di-dâl yn fwy tebygol o fod yn fenywod, yn iau a bod â phlant ifanc.</p> <p>Maent wedi wynebu gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd, sydd wedi herio eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol ac wedi rhoi straen ychwanegol ar eu perthnasoedd, eu cyllid a'u gallu i wneud gwaith cyflogedig.</p>		<p><i>amser iddo a ddefnyddir i gyfleu negeseuon i rieni;</i></p> <p>tudalen Facebook Dechrau'n Deg; a'n Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Fagu Plant, Gofal Plant, Dechrau'n Deg a Rhwydweithiau Teuluoedd yn Gyntaf.</p>
Beichiogrwydd a mamolaeth	<p>Er mwyn cynyddu gweithrediadau ar y safle, bydd angen mwy o staff i weithio o safleoedd ysgolion.</p> <p>Gall hyn gynnwys staff sy'n feichiog.</p>	<p>Mae menywod beichiog yn y categori risg uwch ac fe'u cynghorir yn gyffredinol i ddilyn y cyngor uchod, sy'n berthnasol i'r holl staff mewn ysgolion, a'r cyngor i'r cyhoedd, ond gan fod yn ymwybodol eu bod yn wynebu mwy o risg wrth wneud hynny.</p>	<p>Rydym wedi nodi yn ein canllawiau gweithredol, os nad oes modd iddynt weithio gartref, y dylai staff beichiog a'u cyflogwyr ddilyn y cyngor yn COVID-19: cyngor i weithwyr beichiog. Mae hyn ochr yn ochr ag Adnodd Asesu Risg Cymru Gyfan.</p>
Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)	<p>Er mwyn cynyddu gweithrediadau ar y safle, bydd angen mwy o staff i weithio o safleoedd ysgolion.</p> <p>Gall hyn gynnwys pobl o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yr ydym yn gwybod eu bod mewn mwy o berygl o ddatblygu symptomau mwy difrifol yn sgil Covid-19.</p>	<p>Er bod y cynnig hwn yn galluogi aelodau staff i ailafael mewn dysgu wyneb yn wyneb gyda dysgwyr, mae'n hysbys bod ethnigrwydd yn ffactor wrth bennu'r risg o ddatblygu symptomau mwy difrifol o Covid-19.</p>	<p>Mae'r Adnodd Asesu Risg Cymru Gyfan a ddatblygwyd ar y cyd â'r sector yn ystyried oedran ac yn helpu'r unigolyn a'i gyflogwr i gymryd camau ychwanegol i liniaru'r risgiau hyn. Mae hyn yn ychwanegol at y mesurau lliniaru a gyflwynwyd ar gyfer dysgwyr, staff ac eraill ar safleoedd ysgolion. Bydd gan yr adnodd asesu risg oblygiadau</p>

			<p>uniongyrchol a thymor hir i'r unigolion hynny sy'n asesu eu ffactorau risg personol. Yn y tymor hwy, bydd rhai pobl a allai fod wedi bod yn agored i niwed wedi cael eu diogelu rhag haint COVID-19 difrifol neu bosibilrwydd o farwolaeth. Yn ogystal â'r camau sy'n cael eu cymryd ar unwaith, yn y tymor hwy bydd unigolion yn gallu nodi a deall gwelliannau i'w ffordd o fyw a allai, os gweithredir arnynt, gael effeithiau tymor hwy ar eu hiechyd a'u lles.</p>
<p>Crefydd, cred a diffyg cred</p>	<p>Efallai y bydd staff yn bryderus na fyddant yn gallu dod o hyd i le addas ar y safle ar gyfer addoli crefyddol.</p>		<p>Mae ein canllawiau gweithredol yn nodi y dylid defnyddio'r holl ofod sydd ar gael i helpu i gadw pellter cymdeithasol oddi wrth staff a dysgwyr. Lle y bo'n bosibl bod ystafelloedd yn cael eu hailbwrpasu, dylid sicrhau bod darpariaeth ar gael o hyd i staff gael mynediad i fannau crefyddol ar adegau disgwylidig o'r dydd.</p>
<p>Rhyw / Rhywedd</p>	<p>Mae menywod yn fwy tebygol o ysgwyddo baich gofal plant ychwanegol ac addysg gartref na'u partneriaid gwrywaidd, hyd yn oed os ydynt mewn gwaith.</p>	<p>Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: <i>How coronavirus has affected equality and human rights</i>, Hydref 2020</p>	<p>Rydym yn defnyddio ymgyrchoedd a rhwydweithiau i ddosbarthu gwybodaeth a chynghor i rieni a rhoi sicrwydd iddynt, er enghraifft y rhaglen <i>Magu plant. Rhowch</i></p>

			<p><i>amser iddo a ddefnyddir i gyfleu negeseuon i rieni; tudalen Facebook Dechrau'n Deg; a'n Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Fagu Plant, Gofal Plant, Dechrau'n Deg a Rhwydweithiau Teuluoedd yn Gyntaf.</i></p>
Rhyw / Rhywedd	<p>Bydd cynyddu gweithrediadau ysgolion yn golygu y bydd angen mwy o staff i weithio o safleoedd ysgolion. Gall hyn gynnwys dynion, sydd mewn mwy o berygl o ddatblygu symptomau mwy difrifol o COVID-19.</p>	<p>Er bod hyn yn galluogi aelodau staff i ailafael mewn dysgu wyneb yn wyneb gyda dysgwyr, mae'n hysbys bod oedran yn ffactor wrth bennu'r risg o ddatblygu symptomau mwy difrifol o Covid-19.</p>	<p>Mae'r Adnodd Asesu Risg Cymru Gyfan a ddatblygwyd ar y cyd â'r sector yn ystyried oedran ac yn helpu'r unigolyn a'i gyflogwr i gymryd camau ychwanegol i liniaru'r risgiau hyn. Mae hyn yn ychwanegol at y mesurau lliniaru a gyflwynwyd ar gyfer dysgwyr, staff ac eraill ar safleoedd ysgolion. Bydd gan yr adnodd asesu risg oblygiadau uniongyrchol a thymor hir i'r unigolion hynny sy'n asesu eu ffactorau risg personol. Yn y tymor hwy, bydd rhai pobl a allai fod wedi bod mewn perygl wedi cael eu diogelu rhag haint COVID-19 difrifol neu bosibilrwydd o farwolaeth. Yn ogystal â'r camau sy'n cael eu cymryd ar unwaith, yn y tymor hwy bydd unigolion yn gallu nodi a deall gwelliannau i'w ffordd o fyw a allai, os gweithredir arnynt, gael effeithiau tymor</p>

			hwyl ar eu hiechyd a'u lles.
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim	--	--
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim	--	--
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Amh – gweler yr adran ar blant a phobl ifanc	--	--
Aelwydydd incwm isel	Efallai nad oes gan rieni o gartrefi incwm isel yr adnoddau deallusol i gefnogi eu plant drwy addysg gartref.	Dylai dychwelyd yn llwyr i ddysgu ac addysgu ar y safle leihau'n sylweddol yr effaith y mae addysgu gartref wedi'i chael ar aelwydydd.	Drwy Hwb, y llwyfan dysgu digidol ar gyfer Cymru, mae gan ddysgwyr ac ymarferwyr o ysgolion a gynhelir fynediad at amrywiaeth o adnoddau dysgu ar-lein. Gall defnyddio rhaglenni drwy Hwb ddarparu profiad rhyngweithiol a chyfle i gydweithio ac ymgysylltu mewn ffordd ddiogel a hygyrch.
Aelwydydd incwm isel	Efallai fod aelodau o'r gweithlu addysg ac eraill sy'n gweithio mewn ysgolion a lleoliadau yn bryderus am faterion ariannol a bod angen cymorth ychwanegol arnynt, gan gynnwys y rheini mewn aelwydydd incwm isel.	Er nad ydym yn mesur cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim fesul aelwyd, gallai'r data a gasglwyd gan Data Cymru sy'n dangos cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim fod yn arwydd o bryderon ariannol ehangach.	Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi rhoi nifer o fesurau cymorth ar waith ar gyfer pobl mewn aelwydydd incwm isel, gan gynnwys cymorth ariannol, cynlluniau cymorth dewisol a chynlluniau gwella.

Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig

Er bod y rheoliadau'n berthnasol i hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu mae'r ymyriad yn cael ei ganiatáu ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod teg, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid) Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol); Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd); Erthygl 11 (rhyddid ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (amddiffyn eiddo) yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag ymarfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid gallu cyfiawnhau pob cyfyngiad a gofyniad o'r fath ar y sail eu bod yn ceisio cyflawni nod teg, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.

Mae angen cydbwysu unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (hawl i fywyd). Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i fygythiad y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal yn gymesur i'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

ADDYSG BELLACH, DYSGU AR SAIL GWAITH A DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED

Effeithiau ar Les

Mae tystiolaeth helaeth ynghylch effeithiau negyddol y tarfu addysgol ar iechyd a lles dysgwyr yn sgil Covid. Mae hyn yn cynnwys:

- Effeithiau ar iechyd meddwl a lles, gan gynnwys unigrwydd, gorbryder, ansicrwydd am y dyfodol, pryder am iechyd aelodau o'r teulu¹;
- Pryderon ynghylch bod ar ei hôl hi gyda dysgu, cymwysterau a rhagolygon o ran swyddi yn y dyfodol²;
- Effeithiau ar iechyd corfforol oherwydd llai o ymarfer corff a gweithgarwch cymdeithasol³;
- Effeithiau negyddol anghymesur ar ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig;
- Effeithiau negyddol anghymesur ar ddysgwyr sy'n astudio cymwysterau lefel is ac sydd â lefelau sgiliau is, sy'n dibynnu'n drwm ar strwythur a disgyblaeth bod yn y coleg.

Ar 23 Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganfyddiadau arolwg o 6,000 o ddysgwyr ôl-16 a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2020⁴. Datgelodd yr adborth gan ddysgwyr bryder sylweddol o ran iechyd meddwl a lles, gyda phryderon penodol yn cael eu mynegi gan y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu. Roedd dysgwyr yn poeni am gwblhau eu cymwysterau, yn ei chael yn anodd eu cymell eu hunain wrth ddysgu o bell, ac yn teimlo'n ynysig.

Mae Estyn wedi cynnal adolygiad thematig o iechyd meddwl a lles dysgwyr ôl-16⁵. Canfu'r adolygiad fod y rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu wedi gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau cwnsela i ddysgwyr ers dechrau'r pandemig. Mae'r prif ffactorau sy'n cyfrannu yn cynnwys profedigaeth, ynysu cymdeithasol, ansicrwydd ynghylch trefniadau asesu cymwysterau, pryderon am ragolygon y dyfodol, y pwysau cysylltiedig â gweithio oriau hir mewn galwedigaethau rheng flaen fel iechyd a gofal cymdeithasol, ac effaith cael eich rhoi ar ffyrlo neu eich diswyddo (ar gyfer dysgwyr cyflogedig fel prentisiaid).

Mae cau colegau wedi effeithio'n anghymesur ar ddysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig mewn nifer o ffyrdd. Mae'r grŵp hwn yn fwy tebygol o gael prydau ysgol am ddim a thaliadau eraill sydd wedi'u llunio i'w helpu i dalu costau aros mewn addysg. Maent yn fwy tebygol o gael eu heithrio'n ddigidol ac, er bod buddsoddiadau sylweddol wedi cael eu gwneud mewn offer TGCh i ddysgwyr yn ystod y pandemig, mae dysgwyr nad oes ganddynt amgylchedd addas

¹ <https://youngminds.org.uk/about-us/reports/coronavirus-impact-on-young-people-with-mental-health-needs/>

² https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/CoronavirusAndMe_Jan21_110221_CYM.pdf

³ <https://www.youthsporttrust.org/evidence-paper-impact-covid-19-restrictions-children-and-young-people>

⁴ <https://llyw.cymru/effaith-covid-19-ar-ddysgwyr-arolwg-cynodeb-or-canlyniadau>

⁵ <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-03/Learner%20Mental%20Health%20and%20Emotional%20Wellbeing%20in%20the%20Post-16%20sectors%20cy.pdf>

ar gyfer dysgu yn y cartref, neu sy'n cael trafferth gyda sgiliau digidol sylfaenol, mewn mwy o berygl o syrthio ar ei hôl hi⁶.

Yn ystod cyfyngiadau Lefel 4, mae colegau wedi gallu caniatáu i ddysgwyr agored i niwed ddysgu wyneb yn wyneb. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i golegau unigol nodi dysgwyr y mae eu hamgylchiadau gartref, eu lles neu eu hanghenion addysgol yn golygu eu bod yn cael trafferth dysgu o bell, ac sydd angen y dysgu a'r gefnogaeth uniongyrchol y gellir eu cynnig ar y campws. Mae'r dull seiliedig ar risg hwn yn golygu, lle bo colegau'n ymwybodol o faterion lles penodol, eu bod wedi gallu dod â dysgwyr i'r coleg. Fodd bynnag, yn sgil ein harolwg penodol o ddysgwyr ac ymchwil ehangach ar les yn ystod y pandemig, rydym yn ymwybodol bod nifer fawr iawn o ddysgwyr yn cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl i ryw raddau. Mae hyn yn cynnwys pryderon cyffredinol ynghylch sut bydd asesiadau'n cael eu cynnal, aros yn frwdfrydig a rhagolygon ar gyfer gyrfaedd yn y dyfodol, yn ogystal â materion clinigol mwy difrifol. Mae **pob** dysgwr mewn sefyllfa lle byddai eu lles yn elwa o ailddedrau strwythurau "normal" o ran mynd i'r coleg, gweld eu cyfoedion a symud ymlaen gyda'u cyrsiau, a dim ond drwy ganiatáu i bob dysgwr ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb yn ystod tymor yr haf y gellir cyflawni hyn.

Yn ystod tymor y gwanwyn rydym wedi gweithio gyda'r sector i flaenoriaethu'r dysgwyr sydd fwyaf angen dychwelyd – yn bennaf y rhai sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol "trwydded i ymarfer" na ellir eu darparu ar-lein. Fodd bynnag, mae bron pob dysgwr yn y sector ôl-16 yn astudio tuag at gymhwyster, felly mae'n dod yn fwyfwy anodd cyfyngu neu flaenoriaethu mewn unrhyw ffordd ystyrlon – mae gan y rheini sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol, Safon Uwch, sgiliau sylfaenol, cymwysterau lefel is a darpariaeth ar wahân ar gyfer y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i gyd ddadl ddilys dros fod yn grwpiau blaenoriaeth.

Effeithiau Economaidd

Mae'r sector addysg bellach yn chwarae rhan allweddol yn economi Cymru.

- Drwy ddarparu addysg a hyfforddiant galwedigaethol ar bob lefel hyd at lefel gradd, mae'n darparu cyflenwad o weithwyr medrus ar draws pob sector – gan gynnwys gweithwyr allweddol mewn diwydiannau fel lechyd a Gofal Cymdeithasol, a gweithwyr medrus mewn diwydiannau sy'n datblygu fel eco-adeiladu a'r maes digidol.
- Mae colegau'n gyflogwyr pwysig yn eu heconomiâu a'u cymunedau lleol. Yn ogystal â thua 9,000 o staff a gyflogir yn uniongyrchol, mae'r rhan fwyaf o golegau'n darparu gwasanaethau ehangach i'w dysgwyr a'u staff drwy gontractau gyda chwmnïau lleol: er enghraifft, trafniadaeth, arlwyo a meithrinfeydd. Mae'r cyfyngiadau caeth presennol ar bresenoldeb dysgwyr mewn colegau yn golygu y bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu cau neu eu cwtogi, gan effeithio ar hyfywedd y busnesau sy'n cefnogi.
- Mae'r pandemig hefyd wedi effeithio ar hyfywedd ariannol y colegau eu hunain. Mae gan bob coleg incwm masnachol, er enghraifft drwy gontractau gyda

⁶ <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-03/Report%20on%20Remote%20and%20Blended%20Learning%20in%20Post%2016%20cy%200.pdf>

chyflogwyr i ddarparu hyfforddiant i staff, neu drwy rentu eiddo at ddefnydd busnes a chymunedol.

- Yn ôl ymchwil gan Colegau Cymru⁷, am bob £1 o arian cyhoeddus a fuddsoddir mewn addysg bellach yng Nghymru, bydd cymdeithas yn adennill £7.90.

Does dim modd i lawer o'r cymwysterau galwedigaethol hanfodol a ddarperir gan golegau i weithwyr presennol a gweithwyr yn y dyfodol gael eu darparu o bell. Er mwyn dysgu sgiliau mewn pynciau fel gosod brics, trin gwallt, cynnal a chadw cerbydau modur neu amaethyddiaeth, mae angen profiad "byd go iawn" ar ddysgwyr, naill ai yn y gweithle neu mewn amgylcheddau coleg gyda chyfleusterau ac offer arbenigol. Ni allant symud ymlaen i'r yrfa o'u dewis heb ddangos eu bod yn gallu cyflawni'r sgiliau hyn yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r amhariad estynedig a achosir gan Covid-19 yn golygu na fydd rhai dysgwyr yn gallu cwblhau eu cymwysterau o fewn eu hamserlenni gwreiddiol, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar unigolion ac ar y system i ymestyn y dysgu i flwyddyn academaidd 2021/22 ochr yn ochr â charfan newydd o ddysgwyr sy'n ymuno â'r system. Bydd manteisio i'r eithaf ar yr amser y gall dysgwyr ei dreulio yn y coleg rhwng nawr a mis Medi yn helpu i liniaru'r broblem hon, ac i sicrhau bod dysgwyr yn gallu dysgu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ymuno â'r gweithlu.

Er bod y rhan fwyaf o ddysgwyr mewn addysg bellach yn 16 oed a hŷn, mae colegau hefyd yn darparu dysgu galwedigaethol i lawer o bobl ifanc 14-16 oed, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol – mae hyn yn rhoi mynediad at ddewis ehangach o lwybrau dysgu i ddysgwyr a allai fod yn llai addas ar gyfer llwybrau academaidd. Mae colegau hefyd yn darparu Sgiliau Byw'n Annibynnol a darpariaethau eraill ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Felly, mae carfan o ddysgwyr nad ydynt yn gallu dysgu o bell heb oruchwyliaeth a chefnogaeth gan rieni, sy'n effeithio'n negyddol ar rieni nad ydynt yn gallu gweithio neu y mae cefnogi eu plant i ddysgu gartref yn amharu ar eu gwaith.

Effeithiau ar yr Amgylchedd

Nid oes unrhyw effeithiau amgylcheddol uniongyrchol wedi cael eu mesur fel rhan o'r asesiad hwn.

Asesiadau o'r Effaith

Effeithiau ar gydraddoldeb

⁷ https://www.colegau.cymru/image/publications/reports/Emsi%20-%20Demonstrating%20the%20Economic%20Value%20of%20FE%20Colleges%20in%20Wales/Wales_FactSheet_1415_Final_Welsh.pdf

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
<i>Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)</i>	<p><u>Cadarnhaol</u></p> <p>Bydd dysgwyr 16 oed a hŷn yn gallu dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, gan gael yr un cyfleoedd â phlant iau o ran cymorth a chynnydd addysgol</p> <p>Bydd dysgwyr sy'n oedolion (yn enwedig y rheini sydd â sgiliau digidol is) yn elwa o fynediad at ddysgu, gan gynnwys sgiliau hanfodol.</p> <p>Mae oedolion hŷn yn dibynnu ar fanteision cymdeithasol cymryd rhan mewn dysgu cymunedol, yn ogystal â'r manteision addysgol, ac maent yn debygol o weld gwelliannau yn eu lles yn sgil dychwelyd i ddysgu</p> <p><u>Negyddol</u></p> <p>Gall colegau flaenoriaethu presenoldeb dysgwyr sy'n astudio cyrsiau amser llawn, sy'n debygol o fod rhwng 16 a 19 oed, dros oedolion a dysgwyr rhan-amser</p>	<p>Mae addysg bellach yn sector pob oed sy'n gwasanaethu dysgwyr 16 oed a hŷn (yn ogystal â rhai dysgwyr 14-16 oed). Mae swyddogion wedi gweithio gyda darparwyr dysgu i oedolion i sicrhau bod canllawiau ar gyfer dysgu yn ystod tymor yr haf yn gallu darparu ar gyfer dysgwyr hŷn, yn unol ag ailagor lleoliadau cymunedol a llyfrgelloedd sy'n cael eu defnyddio'n aml i ddarparu'r dysgu hwn.</p>	<p>Gan fod colegau'n sefydliadau ymreolaethol, bydd canllawiau'n rhoi hyblygrwydd iddynt flaenoriaethu sut mae dysgwyr yn dychwelyd i'r campws ac i gydbwyso dysgu ar-lein ac ar y safle o fewn model "cyfunol". Bydd caniatáu i bob dysgwr ddychwelyd i gampysau/canolfannau dysgu yn galluogi dysgwyr hŷn i gael o leiaf rywffaint o ddysgu wyneb yn wyneb cyn diwedd y flwyddyn academaidd, lle byddai cyfyngu ar niferoedd yn debygol o olygu y byddai rhywfaint o'r grŵp hwn yn aros ar-lein yn unig.</p>
<i>Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)</i>	<p><u>Cadarnhaol</u></p> <p>Mae dysgwyr ag anableddau neu anawsterau dysgu yn wynebu rhwystrau penodol o ran dysgu o</p>	<p>Mae hygyrchedd a materion ymarferol eraill yn golygu bod cyfyngiadau addysg yn effeithio'n</p>	<p>Asesiadau risg gan golegau fel y nodir yng nghanllawiau a phrotocol Llywodraeth Cymru rhwng colegau ac undebau athrawon</p>

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
	<p>bell ac mae hyn hefyd wedi rhoi baich ychwanegol ar eu teuluoedd, felly bydd dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u cynnydd.</p> <p><u>Negyddol</u></p> <p>Efallai y bydd dysgwyr a staff sydd â chyflyrau iechyd isorweddol yn wynebu risg uwch oherwydd haint Covid o ganlyniad i ddychwelyd i amgylchedd y coleg.</p>	<p>anghymesur ar ddysgwyr ag anableddau⁸.</p> <p>Fodd bynnag, mae oedolion ag anableddau mewn mwy o berygl o farw o Covid-19⁹.</p> <p>Mae hyn yn golygu bod unrhyw benderfyniad ynghylch presenoldeb dysgwyr (a staff) sydd ag anableddau neu anawsterau dysgu bob amser yn mynd i olygu bod angen cydbwysu'r manteision a'r niweidiau posibl yn ofalus, a chynnal asesiadau risg trylwyr ar gyfer amgylcheddau dysgu ac unigolion.</p>	<p>Glynu wrth ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer grwpiau eithriadol o agored i niwed yn glinigol (wedi'u croesgyfeirio yn y canllawiau ar gyfer darparwyr ôl-16)</p> <p>Asesiad risg unigolion gan ddefnyddio pecyn cymorth Llywodraeth Cymru</p> <p>Profion LFD rheolaidd ar gyfer dysgwyr a staff mewn colegau</p> <p>Brechu grwpiau blaenoriaeth gan gynnwys y rheini sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol a staff sydd â rolau "gofal personol" ar gyfer dysgwyr anabl</p>
<i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol	<i>Amh</i>	<i>Amh</i>

⁸ <https://gemreportunesco.wordpress.com/2020/03/30/how-is-the-coronavirus-affecting-learners-with-disabilities/>

⁹

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/articles/coronavirusrelateddeathsbydisabilitystatusenglandandwales/24januaryto20november2020>

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	<p><u>Negyddol</u></p> <p>Mae staff sy'n feichiog ac nad oes modd eu brechu yn debygol o fod angen addasiadau arbennig i sicrhau eu bod yn gallu parhau i weithio o bell lle bo angen.</p>		<p>Asesiadau risg gan golegau fel y nodir yng nghanllawiau a phrotocol Llywodraeth Cymru rhwng colegau ac undebau athrawon</p> <p>Asesiad risg unigolion gan ddefnyddio pecyn cymorth Llywodraeth Cymru</p>
<i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i>	<p><u>Cadarnhaol</u></p> <p>Mae ailafael mewn dysgu wyneb yn wyneb yn cynnig cyfleoedd pwysig i integreiddio grwpiau amrywiol; mae tua 7% o ddysgwyr AB o leiafrifoedd ethnig, sy'n gyfran uwch na'r dysgwyr mewn ysgolion.</p> <p>Bydd dysgwyr sy'n oedolion, gan gynnwys y rheini sy'n astudio ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill) yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth sy'n hanfodol ar gyfer lles cymdeithasol ac emosiynol cymunedau lleiafrifoedd ethnig.</p> <p><u>Negyddol</u></p>	<p>Mae pobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi gweld cynnydd anghymesur mewn salwch meddwl yn ystod cyfyngiadau Covid^{10 11}.</p> <p>Mae dysgwyr ESOL wedi'i chael yn arbennig o anodd dysgu o bell yn ystod y cyfyngiadau symud¹².</p>	<p>Asesiadau risg gan golegau fel y nodir yng nghanllawiau a phrotocol Llywodraeth Cymru rhwng colegau ac undebau athrawon</p> <p>Asesiad risg unigolion gan ddefnyddio pecyn cymorth Llywodraeth Cymru</p>

¹⁰ <https://www.youthsporttrust.org/evidence-paper-impact-covid-19-restrictions-children-and-young-people>

¹¹ https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/CoronavirusAndMe_Jan21_110221_CYM.pdf

¹² <https://www.bevanfoundation.org/commentary/providing-social-spaces-for-forced-migrants-the-important-role-of-esol/>

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
	Gall unigolion o leiafrifoedd ethnig wynebu risg uwch oherwydd haint Covid, ac felly efallai eu bod yn gyndyn o ddychwelyd i fyd addysg. Mae hyn yn golygu y bydd y dysgwyr hyn yn cael profiad dysgu gwahanol i'w cyfoedion.		
<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol	<i>Amh</i>	<i>Amh</i>
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	<u>Cadarnhaol</u> Bydd dysgwyr sy'n astudio pob pwnc – gan gynnwys rhai fel trin gwallt neu beirianeg sy'n tueddu i ddenu un rhyw yn bennaf – i gyd yn cael y cyfle i ddychwelyd i'r coleg a symud ymlaen yn eu cymwysterau		
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol	<i>Amh</i>	<i>Amh</i>
<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol	<i>Amh</i>	<i>Amh</i>
<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	<u>Cadarnhaol</u> Bydd pobl ifanc sy'n astudio Safon Uwch a chysiau galwedigaethol cyfatebol yn y coleg yn cael yr un cyfle â'u cyfoedion yn y chweched dosbarth i		

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
	ddychwelyd i ddysgu a symud ymlaen i addysg uwch neu gyflogaeth.		
<i>Aelwydydd incwm isel</i>	<p><u>Cadarnhaol</u></p> <p>Mae dysgwyr o gartrefi incwm isel yn fwy tebygol o gael trafferth gyda dysgu o bell am nifer o resymau, gan gynnwys allgáu digidol, diffyg cymorth teuluol, amgylchedd cartref anaddas a sgiliau hanfodol lefel is. Bydd dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb yn rhoi strwythur a disgyblaeth hanfodol iddynt aros mewn dysgu.</p>		

Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ystyriwyd y Confensiwn yn yr asesiad hwn. Mae nifer o Erthyglau'n ymwneud â darparu addysg ôl-16 yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol:

Erthygl 12 Mae gan blant hawl i fynegi eu barn, eu teimladau a'u dymuniadau ynghylch pob mater sy'n effeithio arnynt, ac i bobl ystyried eu barn a'u cymryd o ddifrif. Mae'r hawl hon yn berthnasol bob amser, er enghraifft yn ystod achosion mewn fudo, penderfyniadau ynghylch tai neu fywyd cartref y plentyn o ddydd i ddydd.

Wrth gynnal yr asesiad hwn a gweithio gyda darparwyr addysg i gynllunio ar gyfer ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb, mae swyddogion wedi gweithio gydag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr ac wedi ystyried adborth dysgwyr drwy ein harolwg ein hunain o ddysgwyr ôl-16, gohebiaeth gan ddysgwyr, ac adolygiadau Estyn o les a dysgu o bell.

Erthygl 15 Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac ymuno â phlant eraill, grwpiau a sefydliadau, cyn belled â bod hynny ddim yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

Mae adborth gan ddysgwyr yn dangos bod unigrwydd a theimlo'n ynysig ymysg yr effeithiau negyddol mwyaf ar bobl ifanc yn sgil cyfyngiadau Covid. Mae ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol mewn amgylchedd lle cynhelir asesiad risg, yn ogystal â galluogi pobl ifanc ac oedolion i symud ymlaen yn eu dysgu.

Erthygl 19 Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o drais, camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth wael gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt.

Er bod colegau a darparwyr dysgu eraill wedi canolbwyntio'n agos ar ddiogelu dysgwyr yn ystod cyfnodau o ddysgu o bell, mae presenoldeb ar y safle yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd unrhyw bryderon neu broblemau'n cael eu canfod ac y gellir mynd i'r afael â nhw drwy atgyfeiriadau diogelu. Mae modd lliniaru materion sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein, bwlio ac eithafiaeth drwy gael mwy o gymorth wyneb yn wyneb.

Erthygl 23 - Mae gan blant anabl hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas ac annibyniaeth, i'r graddau mwyaf posibl, yn ogystal â chwarae rhan weithredol yn y gymuned. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.

Mae sefydliadau addysg bellach a darparwyr ôl-16 eraill yn addysgu llawer o fyfyrwyr ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol, ac mae rhai ohonynt yn ei chael yn anodd neu'n amhosibl dysgu ar-lein heb lefelau sylweddol iawn o gefnogaeth deuluol. Mae dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb yn rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr hyn symud ymlaen yn eu hastudiaethau ac i gael profiad hanfodol o ryngweithio â'u cyfoedion, eu hathrawon a'u cymunedau.

Erthygl 28 Mae gan blant yr hawl i addysg. Rhaid i addysg gynradd fod yn rhad ac am ddim a rhaid i wahanol fathau o addysg uwchradd fod ar gael i bob plentyn. Rhaid i ddisgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas a hawliau plant.

Erthygl 29 Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, talentau a galluoedd pob plentyn i'r eithaf. Rhaid iddo hybu parch plant at hawliau dynol, yn ogystal â pharch at eu rhieni, eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill, a'r amgylchedd.

Er bod y dysgu wedi cael ei ddarparu o bell yn ystod cyfyngiadau Lefel 4 (gyda rhai dysgwyr yn gallu mynychu'r coleg ar hyn o bryd), mae lefel ymgysylltu'r dysgwyr wedi amrywio'n fawr. Mae llawer o bobl ifanc wedi'i chael yn anodd parhau i gymryd rhan, gyda materion sy'n ymwneud ag allgáu digidol, amgylcheddau cartref, ymyriadau ac arddulliau dysgu i gyd yn cyfrannu at eu hymgysylltiad a'u cynnydd.

Y Gymraeg

Mae'r newid i ddysgu cyfunol ac ar-lein yn ystod y pandemig wedi arwain at rai manteision cadarnhaol o ran dysgu Cymraeg, yn bennaf ymysg oedolion, lle gwelwyd mwy o bobl yn defnyddio cyrsiau Cymraeg i Oedolion ar-lein yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf. I ddysgwyr iau, mae'r darlun yn llai clir, yn enwedig yn y sector ôl-16 lle nad oes ymchwil manwl wedi'i gynnal hyd yma. Mae dysgu o bell wedi golygu colli rhai cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol er mwyn helpu dysgwyr i gynnal a datblygu eu sgiliau iaith, hyd yn oed pan nad ydynt yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Efallai y bydd dysgwyr sy'n dod o gartrefi Saesneg eu hiaith wedi colli sgiliau iaith yn ystod cyfyngiadau Covid o ganlyniad i beidio â chlywed a defnyddio'r iaith yn ddyddiol yn eu coleg neu eu canolfan hyfforddi, hyd yn oed os ydynt yn cael eu dysgu o bell drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Bydd dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb yn ailgyflwyno'r cyfleoedd hyn i glywed, defnyddio a datblygu'r Gymraeg.

Materion Gweithredu

Mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda'r sector ôl-16 i ddatblygu canllawiau gweithredol ar gyfer darparu dysgu o 12 Ebrill ymlaen. Mae hyn yn seiliedig ar fodel "hybrid" lle gellir darparu dysgu amser llawn i grwpiau cyswllt, sy'n gyson â'r dull gweithredu ar gyfer eu cyfoedion mewn ysgolion uwchradd; tra caiff dysgu i oedolion a dysgu rhan-amser ei ddarparu ar sail cadw pellter cymdeithasol, gan adlewyrchu'r ystod ehangach o gysylltiadau a'r lefel uwch o risg ar gyfer y carfannau hyn. Dilynwyd y model hwn yn ystod tymor yr hydref 2020 ac mae'r sector yn ei ddeall yn dda.

Mae'r broses o ddychwelyd dysgwyr i ddysgu wyneb yn wyneb yn cael ei ategu gan gyflwyno profion cyfresol Dyfais Llif Unffordd (LFD) ar gyfer dysgwyr a staff, er mwyn helpu i adnabod heintiau Covid ac i gynyddu cyfraddau profion cymunedol.

Mae colegau addysg bellach, o dan nawdd eu corff cynrychioladol Colegau Cymru, wedi gweithio mewn partneriaeth ag undebau athrawon i gytuno ar brotocol manwl ar gyfer dychwelyd staff yn ddiogel i ddysgu wyneb yn wyneb. Mae'r broses o ddychwelyd i ddysgu hefyd yn cael ei chefnogi gan gyllid ychwanegol y gall colegau ei ddefnyddio i roi mesurau lliniaru ar waith (fel addasiadau i'w hamgylchedd dysgu, cludiant ychwanegol, a goramser i staff) i sicrhau gweithio diogel.

ASESIAD O HAWDDFRAINT ADDYSG UWCH

Materion Lles

Mae tystiolaeth helaeth ynghylch effeithiau negyddol y tarfu addysgol ar iechyd a llesiant dysgwyr yn sgil Covid. Mae hyn yn cynnwys:

- Effeithiau ar iechyd meddwl a lles, gan gynnwys unigrwydd, gorbryder, ansicrwydd am y dyfodol, pryder am iechyd aelodau o'r teulu¹³;
- Pryderon ynghylch bod ar ei hôl hi gyda dysgu, cymwysterau a rhagolygon o ran swyddi yn y dyfodol¹⁴;
- Effeithiau ar iechyd corfforol oherwydd llai o ymarfer corff a gweithgarwch cymdeithasol¹⁵;
- Effeithiau negyddol anghymesur ar ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig;
- Effeithiau negyddol anghymesur ar ddysgwyr sy'n astudio mewn darparwyr tariff mynediad is neu sy'n defnyddio rhaglenni sylfaen, a allai ddibynnu'n drwm ar strwythur a disgyblaeth bod yn y brifysgol.
- Effeithiau negyddol anghymesur ar ddysgwyr benywaidd a dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is sy'n fwy tebygol o fod yn astudio pwnc dyniaethau ac sydd, o ganlyniad, heb gael llawer o ddysgu wyneb yn wyneb.

[Cyhoeddodd Ymddiriedolaeth Sutton bapur ymchwil ar Covid-19 a'r Profiad o'r Brifysgol.](#) Daw'r Data o arolwg YouthSight o'r myfyrwyr israddedig sydd mewn prifysgolion yn y DU ar hyn o bryd, fodd bynnag, nid oes modd pennu i ba raddau y mae'n cynrychioli myfyrwyr Cymru.

Dyma'r prif ganfyddiadau:

- Roedd myfyrwyr yn llai tebygol o fod wedi cymryd rhan mewn profiad gwaith (i lawr 6 phwynt canran), neu waith cyflogedig (i lawr 5 pwynt canran), tra oedd nifer y rhai a oedd yn astudio dramor yn llai na hanner y flwyddyn flaenorol. Roedd nifer y myfyrwyr nad oeddent yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd 14 pwynt canran yn uwch na 2019.
- Mae'r bwlch cyfranogiad wedi ehangu yn ystod y pandemig. Cymerodd 44% o fyfyrwyr dosbarth canol ran mewn cymdeithasau myfyrwyr y tymor diwethaf o'i gymharu â dim ond 33% o fyfyrwyr o gefndir dosbarth gweithiol. Roedd cyfranogiad wedi gostwng mwy o'i gymharu â lefelau 2019 ar gyfer myfyrwyr dosbarth gweithiol yn ystod tymor yr hydref 2020.
- Mae pobl o gefndiroedd llai cefnog yn fwy tebygol o fod yn byw gartref. Mae 64% o'r rhai o gefndir dosbarth gweithiol wedi treulio'r tymor hwn yn byw gyda'u teulu, i fyny o 50% yn yr hydref. Mae myfyrwyr sy'n byw gartref yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, gyda dim ond 25% o'r myfyrwyr sy'n byw gartref yn ystod tymor yr hydref yn cymryd rhan, o'i gymharu â 32% o fyfyrwyr sy'n byw oddi cartref.

¹³ <https://youngminds.org.uk/about-us/reports/coronavirus-impact-on-young-people-with-mental-health-needs/>

¹⁴ https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/CoronavirusAndMe_Jan21_110221_CYM.pdf

¹⁵ <https://www.youthsporttrust.org/evidence-paper-impact-covid-19-restrictions-children-and-young-people>

- Y pryder mwyaf i fyfyrwyr ar hyn o bryd yw eu bod yn gallu ennill y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth, gyda 76% yn dweud eu bod yn weddol bryderus neu'n bryderus iawn. Yn dilyn hyn, roedd pryderon ynghylch gallu cymryd rhan ym mywyd cymdeithasol y brifysgol (71%), pryderon am eu hiechyd meddwl/lles (70%) a dosbarthiadau ar-lein yn hytrach nag wyneb yn wyneb (64%).
- Roedd dros hanner (54%) y myfyrwyr wedi cael problemau ariannol yn ystod tymor yr hydref, fel methu dod o hyd i swydd (27%), llai o oriau (16%), neu eu rhieni'n llai abl i'w cefnogi (19%).
- Dywedodd traean o'r myfyrwyr (33%) ei bod yn anodd iddynt dalu eu costau byw sylfaenol a chostau eu cwrs ar hyn o bryd. Roedd y ffigur hwn yn uwch ar gyfer myfyrwyr dosbarth gweithiol (39%) na myfyrwyr dosbarth canol (30%).
- Dywedodd 1 myfyriwr o bob 10 nad oedd ganddynt fynediad digonol i'r rhyngwrwyd i gwblhau eu gwaith a'u hasesiadau prifysgol, sydd wedi dyblu ers mis Ebrill y llynedd. Does gan bron i chwarter (22%) ddim man digonol i astudio.
- O ystyried yr heriau y mae myfyrwyr yn eu hwynebu eleni, mae pryder gwirioneddol y gallai cyfraddau gadael gynyddu. Dywedodd 10% o fyfyrwyr dosbarth gweithiol ei bod yn annhebygol y byddent yn cwblhau'r flwyddyn, o'i gymharu â 6% o fyfyrwyr dosbarth canol. O'r rheini a oedd yn poeni am beidio â chwblhau'r flwyddyn, dywedodd tri chwarter fod y pandemig wedi cael effaith negyddol sylweddol neu rannol ar eu tebygolrwydd o gwblhau'r flwyddyn.

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Mae'r sector addysg uwch yn chwarae rhan allweddol yn economi Cymru, fel sefydliadau angor lleol a rhanbarthol sy'n darparu cyflogaeth ac fel rhan allweddol o gadwyni cyflenwi gwasanaethau. Mae'r sector hefyd yn darparu'r cyflenwad o weithwyr medrus iawn ar draws pob sector – gan gynnwys gweithwyr allweddol mewn diwydiannau fel lechyd a Gofal Cymdeithasol, a gweithwyr medrus mewn diwydiannau fel eco-adeiladu a'r maes digidol.

Mae'r pandemig hefyd wedi effeithio ar hyfywedd ariannol sefydliadau Addysg Uwch. Mae gan bob sefydliad incwm masnachol, er enghraifft drwy gcontractau gyda chyflogwyr i ddarparu hyfforddiant i staff, neu drwy rentu eiddo at ddefnydd busnes a chymunedol. Mae Sefydliadau Addysg Uwch hefyd wedi dioddef colled sylweddol o ganlyniad i ad-dalu rhent ar gyfer llety myfyrwyr nas defnyddiwyd.

Cyflwynodd CCAUC dystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Mawrth 2021 a oedd yn amlinellu effaith Covid-19 ar Sector Addysg Uwch Cymru¹⁶. Canfuwyd y canlynol:

- Er bod sefyllfa ariannol y sector yn 2019/20 yn well na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, ystyriwyd yn gynnar iawn yn y pandemig y byddai 2020/21 yn flwyddyn a fyddai'n debygol o gyflwyno mwy o heriau i'r sector, yn enwedig o ran recriwtio myfyrwyr ac effaith hynny ar incwm ffioedd dysgu, y disgwylir iddynt barhau i 2021/22 a thu hwnt. Ar ben hynny, mae'r cyfyngiadau yn sgil y pandemig wedi parhau'n hirach na'r disgwyl, sydd wedi arwain at effeithiau parhaus ar gynhyrchu

¹⁶ Adroddiad CCAUC i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Mawrth 2021) *Effaith Covid-19 ar y Sector AU yng Nghymru*

incwm a chostau sy'n gysylltiedig â Covid. Po hiraf y bydd y cyfyngiadau hyn ar waith, y mwyaf fydd yr effaith ariannol wrth symud ymlaen.

- Mae prifysgolion yn gweld gostyngiad mewn incwm o ffioedd dysgu, yn enwedig gan fyfyrwyr rhyngwladol, yn ogystal â gostyngiad parhaus mewn incwm o ffioedd llety, gwasanaethau masnachol, cyrsiau byr a chyrsiau haf, cyllid ymchwil a ffynonellau eraill. Mae prifysgolion hefyd wedi gorfod ad-dalu costau llety i'r myfyrwyr hynny sydd wedi methu dychwelyd i'r campws oherwydd cyfyngiadau teithio Covid.
- Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau israddedig yn para am dair blynedd ac felly bydd effaith y gostyngiad mewn recriwtio yn 2020/21 parhau drwy 2021/22 a thu hwnt, wrth i lai o waith recriwtio myfyrwyr fynd rhagddo. Mae hyn wedi arwain at yr angen i brifysgolion barhau â mesurau rheoli costau, gan olygu bod rhai angen dwysáu cynlluniau ailstrwythuro a oedd eisoes ar waith cyn y pandemig, gyda'r posibilrwydd o effaith economaidd ehangach yn sgil colli'r swyddi hyn.

Does dim modd i lawer o'r cymwysterau galwedigaethol hanfodol a ddarperir gan Sefydliadau Addysg Uwch i weithwyr presennol a gweithwyr yn y dyfodol gael eu darparu o bell . Er mwyn dysgu sgiliau mewn pynciau fel meddygaeth, celfyddydau perfformio, peirianeg neu waith cymdeithasol, mae angen profiad "byd go iawn" ar ddysgwyr, naill ai yn y gweithle neu mewn amgylcheddau addysg uwch gyda chyfleusterau ac offer arbenigol. Ni allant symud ymlaen i'r yrfa o'u dewis heb ddangos eu bod yn gallu cyflawni'r sgiliau hyn yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r amhariad estynedig a achosir gan Covid-19 yn golygu efallai na fydd rhai dysgwyr yn gallu cwblhau eu cymwysterau o fewn eu hamserlenni gwreiddiol, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar unigolion ac ar y system i ymestyn y dysgu i flwyddyn academiaidd 2021/22 ochr yn ochr â charfan newydd o ddysgwyr sy'n ymuno â'r system. Bydd manteisio i'r eithaf ar yr amser y gall dysgwyr ei dreulio yn y brifysgol rhwng nawr a mis Medi yn helpu i liniaru'r broblem hon, ac i sicrhau bod dysgwyr yn gallu dysgu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ymuno â'r gweithlu.

Materion Amgylcheddol

Nid oes unrhyw effeithiau amgylcheddol uniongyrchol wedi cael eu mesur fel rhan o'r asesiad hwn.

Asesiadau o'r Effaith

Effeithiau ar gydraddoldeb

<i>Grŵp neu nodwedd warchoddedig</i>	<i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i>	<i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i>	<i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?</i>
<i>Oedran (meddyliwch am wahanol</i>	<u>Cadarnhaol</u> Bydd dysgwyr yn gallu dychwelyd i ddysgu wyneb	Mae addysg uwch yn sector pob oed sy'n gwasanaethu	Gan fod Sefydliadau Addysg Uwch yn sefydliadau ymreolaethol, bydd

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
<i>grwpiau oedran)</i>	<p>yn wyneb, gan gael yr un cyfleoedd â dysgwyr iau o ran cymorth a chynnydd addysgol</p> <p>Mae dysgwyr iau yn dibynnu ar fanteision cymdeithasol addysg uwch, yn ogystal â'r manteision addysgol, ac maent yn debygol o weld gwelliannau yn eu lles yn sgil ddychwelyd i ddysgu</p> <p><u>Negyddol</u></p> <p>Gall dysgwyr hŷn, a allai fod yn poeni am effeithiau dal y feirws, ddewis parhau i ddysgu o bell a chael cynnig dysgu gwahanol i'w cyfoedion iau.</p>	<p>dysgwyr 18 oed a hŷn.</p> <p>Mae swyddogion wedi gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod canllawiau ar gyfer dysgu yn ystod tymor yr haf yn gallu darparu ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn dymuno dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb oherwydd pryderon am eu hiechyd.</p>	<p>canllawiau'n rhoi hyblygrwydd iddynt flaenoriaethu sut mae dysgwyr yn dychwelyd i'r campws ac i gydbwysu dysgu ar-lein ac ar y safle o fewn model "cyfunol". Bydd caniatáu i bob dysgwr ddychwelyd i gampysau/canolfannau dysgu yn galluogi dysgwyr i gael o leiaf rywfaint o ddysgu wyneb yn wyneb cyn diwedd y flwyddyn academaidd.</p>
<i>Anabledd (meddylwch am wahanol fathau o anabledd)</i>	<p><u>Cadarnhaol</u></p> <p>Mae dysgwyr ag anableddau neu anawsterau dysgu yn wynebu rhwystrau penodol o ran dysgu o bell ac mae hyn hefyd wedi rhoi baich ychwanegol ar eu teuluoedd, felly bydd dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u cynnydd.</p> <p><u>Negyddol</u></p> <p>Gallai dysgwyr a staff sydd â chyflyrau iechyd isorweddol wynebu risg uwch oherwydd haint Covid o ganlyniad i</p>	<p>Mae hygyrchedd a materion ymarferol eraill yn golygu bod cyfyngiadau addysg yn effeithio'n anghymesur ar ddysgwyr ag anableddau¹⁷.</p> <p>Fodd bynnag, mae oedolion ag anableddau mewn mwy o berygl o farw o Covid-19¹⁸. Mae hyn yn golygu bod unrhyw benderfyniad ynghylch presenoldeb dysgwyr (a staff) sydd ag</p>	<p>Asesiadau risg gan Sefydliadau Addysg Uwch fel y nodir yng nghanllawiau a phrotocol Llywodraeth Cymru rhwng Sefydliadau Addysg Uwch ac undebau athrawon</p> <p>Glynu wrth ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer grwpiau eithriadol o agored i niwed yn glinigol (wedi'u croesgyfeirio yn y canllawiau ar gyfer addysg uwch)</p>

¹⁷ <https://gemreportunesco.wordpress.com/2020/03/30/how-is-the-coronavirus-affecting-learners-with-disabilities/>

¹⁸

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/articles/coronavirusrelateddeathsbydisabilitystatusenglandandwales/24januaryto20november2020>

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
	ddychwelyd i amgylchedd dysgu.	anableddau neu anawsterau dysgu bob amser yn mynd i olygu bod angen cydbwysu'r manteision a'r niweidiau posibl yn ofalus, a chynnal asesiadau risg trylwyr ar gyfer amgylcheddau dysgu ac unigolion.	Asesiad risg unigolion gan ddefnyddio pecyn cymorth Llywodraeth Cymru Profion LFD rheolaidd ar gyfer dysgwyr a staff Brechu grwpiau blaenoriaeth gan gynnwys y rheini sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol a staff sydd â rolau "gofal personol" ar gyfer dysgwyr anabl
<i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl trawsryweddol)</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol	<i>Amh</i>	<i>Amh</i>
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	<u>Negyddol</u> Mae staff a myfyrwyr sy'n feichiog ac nad oes modd eu brechu yn debygol o fod angen addasiadau arbennig i sicrhau eu bod yn gallu parhau i weithio o bell lle bo angen.		Asesiadau risg gan Sefydliadau Addysg Uwch fel y nodir yng nghanllawiau a phrotocol Llywodraeth Cymru rhwng prifysgolion ac undebau athrawon Asesiad risg unigolion gan ddefnyddio pecyn cymorth Llywodraeth Cymru
<i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i>	<u>Cadarnhaol</u> Mae ailafael mewn dysgu wyneb yn wyneb yn cynnig cyfleoedd pwysig i integreiddio grwpiau amrywiol. <u>Negyddol</u> Gall unigolion o leiafrifoedd ethnig wynebu risg uwch	Mae pobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig wedi gweld cynnydd anghymesur mewn salwch meddwl yn ystod cyfyngiadau Covid ¹⁹ ²⁰ .	Asesiadau risg gan Sefydliadau Addysg Uwch fel y nodir yng nghanllawiau a phrotocol Llywodraeth Cymru rhwng prifysgolion ac undebau athrawon

¹⁹ <https://www.youthsporttrust.org/evidence-paper-impact-covid-19-restrictions-children-and-young-people>

²⁰ https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2021/02/CoronavirusAndMe_Jan21_110221_CYM.pdf

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
	oherwydd haint Covid, ac felly efallai eu bod yn gyndyn o ddychwelyd i fyd addysg. Mae hyn yn golygu y bydd y dysgwyr hyn yn cael profiad dysgu gwahanol i'w cyfoedion.		Asesiad risg unigolion gan ddefnyddio pecyn cymorth Llywodraeth Cymru
<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol	<i>Amh</i>	<i>Amh</i>
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	<u>Cadarnhaol</u> Bydd dysgwyr sy'n astudio pob pwnc – gan gynnwys rhai fel pynciau Dyniaethau lle mae'r gynrychiolaeth yn tueddu i gynnwys un rhyw yn bennaf – i gyd yn cael y cyfle i ddychwelyd i'r brifysgol a symud ymlaen yn eu cymwysterau		
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol	<i>Amh</i>	<i>Amh</i>
<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol	<i>Amh</i>	<i>Amh</i>
<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol	<i>Amh</i>	<i>Amh</i>
<i>Aelwydydd incwm isel</i>	<u>Cadarnhaol</u> Mae dysgwyr o gartrefi incwm isel yn fwy tebygol o gael trafferth gyda dysgu o bell am nifer o resymau, gan gynnwys allgáu digidol, diffyg cymorth teuluol, amgylchedd cartref anaddas a thrafferthion ariannol. Bydd dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb yn rhoi strwythur a disgyblaeth hanfodol iddynt aros mewn		

<i>Grŵp neu nodwedd warchoddedig</i>	<i>Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?</i>	<i>Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)</i>	<i>Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?</i>
	dysgu a bydd yn eu galluogi i ymgysylltu â'u cyfoedion er mwyn cymell ei gilydd.		

Y Gymraeg

Mae'r newid i ddysgu cyfunol ac ar-lein yn ystod y pandemig wedi arwain at rai manteision cadarnhaol o ran dysgu Cymraeg, yn bennaf ymysg oedolion, lle gwelwyd mwy o bobl yn defnyddio cyrsiau Cymraeg i Oedolion ar-lein yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf. Fodd bynnag, mae dysgu o bell wedi golygu colli rhai cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol er mwyn helpu dysgwyr i gynnal a datblygu eu sgiliau iaith, hyd yn oed pan nad ydynt yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Efallai y bydd dysgwyr sy'n dod o gartrefi Saesneg eu hiaith wedi colli sgiliau iaith yn ystod cyfyngiadau Covid o ganlyniad i beidio â chlywed a defnyddio'r iaith yn ddyddiol yn eu prifysgol, hyd yn oed os ydynt yn cael eu dysgu o bell drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Bydd dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb yn ailgyflwyno'r cyfleoedd hyn i glywed, defnyddio a datblygu'r Gymraeg.

Materion Gweithredu

Mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda'r sector addysg uwch i ddatblygu canllawiau gweithredol ar gyfer darparu dysgu o 12 Ebrill ymlaen. Dilynwyd y model hwn yn ystod tymor yr hydref 2020 ac mae'r sector yn ei ddeall yn dda.

Mae'r broses o ddychwelyd dysgwyr i ddysgu wyneb yn wyneb yn cael ei ategu gan gyflwyno profion Dyfais Llif Unffordd (LFD) ar gyfer dysgwyr a staff, er mwyn helpu i adnabod heintiau Covid ac i gynyddu cyfraddau profion cymunedol.

MANWERTHU NAD YW'N HANFODOL

Codwyd y cyfyngiadau ar werthu eitemau nad ydynt yn hanfodol ar gyfer siopau a oedd yn gwerthu eitemau hanfodol ar 22 Mawrth a chaniatawyd i ganolfannau garddio ailagor hefyd. Yn yr adolygiad ar 1 Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i ganiatáu i bob siop nad yw'n hanfodol ailagor o 12 Ebrill ymlaen, ar yr amod bod y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn parhau'n ffafriol ac yn gyson â'r dull gofalus a graddol sydd wedi'i nodi yng Nghynllun Rheoli'r Coronafeirws sydd wedi'i ddiweddarau: Lefelau Rhybudd Diwygiedig yng Nghymru (Mawrth 2021).

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Effeithiau economaidd cyffredinol cyfyngiadau

Mae'r mesurau a roddwyd ar waith i reoli lledaeniad Covid-19 yng Nghymru wedi cael effeithiau niweidiol sylweddol ar sectorau yr effeithir arnynt (y rheini na allant weithredu o fewn cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol) yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy arafu economaidd ehangach o ganlyniad i hynny. Mae tystiolaeth bod yr effeithiau economaidd uniongyrchol yn cael yr effaith fwyaf difrifol ar y bobl a oedd eisoes dan yr anfantais fwyaf o ran y farchnad lafur. Mae'r rhain yn cynnwys pobl ar gyflog isel sydd â lefelau is o gymwysterau, pobl sy'n gweithio'n rhan-amser, a'r rheini sydd mewn cyflogaeth dros dro neu ar gontractau 'dim oriau'. Bydd pobl sy'n ymuno â'r farchnad lafur yn teimlo effeithiau niweidiol hefyd.

Yn gyffredinol, ymhlith y manteision economaidd posibl sy'n deillio o lacio'r cyfyngiadau yn y ffyrdd a ddisgrifiwyd (o'i gymharu â chadw'r cyfyngiadau presennol) mae:

- cynnydd uniongyrchol mewn gweithgarwch economaidd, yn enwedig yn y busnesau hynny y mae eu gweithrediadau wedi lleihau neu wedi dod i ben dros dro o ganlyniad i argyfwng Covid-19;
- cynnydd mewn cyflogaeth mewn sawl sector o'r economi;
- effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad gweithgarwch economaidd cynyddol mewn sectorau sy'n cyflogi cyfrannau mwy o (er enghraifft): gweithwyr ar gyflog isel a llai medrus; grwpiau oedran iau; menywod neu weithwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Prif fuddiolwyr y mesur hwn fyddai pobl a gyflogir yn y sectorau hynny sy'n dychwelyd i weithgarwch, ac o ran cydbwysedd, mae'r effeithiau o ran dosbarthiad yn debygol o ffafrio'r rheini ar incwm is a phobl iau (fel y nodir uchod ac isod).

Mae llawer o gwmnïau'n defnyddio Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) Llywodraeth y DU i roi staff ar ffyrlo neu fathau eraill o gymorth. Mae'r CJRS yn sicrhau, os bydd gweithwyr yn cael eu rhoi ar ffyrlo, y bydd Llywodraeth y DU yn gwarantu 80% o'u hincwm cyflogedig arferol (gyda chyflogwyr yn cael ychwanegu at y cyflog yn ôl eu disgrisiwn) hyd at uchafswm o £2,500 y mis. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi newidiadau i'r cynllun a fydd yn berthnasol o fis Gorffennaf ymlaen. O'r pwynt hwn ymlaen, bydd Llywodraeth y DU yn talu 70%, a disgwylir i gyflogwyr gyfrannu'r 10% sy'n weddill. O fis Awst ymlaen, bydd hyn yn newid i 60% ac 20%, yn y drefn honno. Ar ôl y pwynt hwn, mae'r cynllun

i fod i ddod i ben. Er bod y cynllun wedi helpu i gefnogi llawer o swyddi yn y sector, mae gweithwyr ar ffyrlo yn dal i wynebu gostyngiad yn eu hincwm mewn swyddi sydd eisoes yn talu cyflogau isel mewn rhai achosion.

Ar hyn o bryd mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi Arolwg o Ganfyddiadau Busnes a'r Effaith Economi'r DU (BICS) sy'n rhoi rhywfaint o wybodaeth – ar lefel y DU – am effeithiau ariannol y cyfyngiadau symud hyd yma. Nid yw'r data yn yr arolwg hwn wedi'i rannu i'r effeithiau penodol ar fanwerthu, ond mae'n cynnwys data ar grŵp sectoraidd ehangach sy'n cynnwys Masnach Cyfanwerthu a Manwerthu; Trwsio Cerbydau Modur a Beiciau Modur. Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos:

- Rhwng 8 a 21 Chwefror, roedd tua 29% o fusnesau'r DU yn y grŵp sector hwn wedi rhoi'r gorau i fasnachu dros dro.
- O'r rheini a oedd wedi parhau i fasnachu yn y grŵp sector hwn, dywedodd 28% fod eu trosiant wedi gostwng 20% neu fwy o'i gymharu â'r disgwyliadau arferol ar yr adeg hon o'r flwyddyn (gydag 11% yn nodi fod eu trosiant wedi gostwng mwy na hanner). Nododd 11% arall o fusnesau yn y grŵp sector hwn ganlyniadau cadarnhaol mewn perthynas â throsiant.
- Yn y grŵp sector hwn, roedd 22% o'r gweithlu ar ffyrlo llawn neu rannol mewn busnesau a oedd yn masnachu ar y pryd; a 42% mewn busnesau a oedd wedi rhoi'r gorau i fasnachu dros dro neu wedi rhoi'r gorau i fasnachu.

Arwyddocâd economaidd manwerthu heb fod yn hanfodol i economi Cymru

Yn 2018, roedd yr holl sector manwerthu yn cyfrannu £3.7biliwn o werth ychwanegol gros (GVA) i economi Cymru. Roedd hyn gyfwerth â 5.9% o gyfanswm y GVA ar gyfer yr un flwyddyn.

Cyflogaeth

- Yn 2019, roedd 59,000 o bobl yng Nghymru yn gweithio ym maes manwerthu heb fod yn hanfodol. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 4% o'r holl gyflogaeth yng Nghymru.
- Yn 2019, De-ddwyrain Cymru oedd â'r gyfran fwyaf o bobl wedi'u cyflogi ym maes manwerthu heb fod yn hanfodol yng Nghymru (30,000). Roedd hyn bron ddwywaith cymaint â'r gyfran yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru (16,000). Yng Ngogledd Cymru, roedd 12,000 o bobl yn gweithio ym maes manwerthu heb fod yn hanfodol yn 2019.

Ffigurau busnes

- Yn 2020, roedd cyfanswm o 3,465 o fentrau yn y sector manwerthu heb fod yn hanfodol yng Nghymru, sef 3.3% o'r mentrau ym mhob sector.
- Roedd y nifer fwyaf o fentrau yn Ne-ddwyrain Cymru (1,445), yna Canolbarth a De-orllewin Cymru (1,155) a Gogledd Cymru (860) – dosbarthiad sy'n weddol debyg i'r un ar gyfer mentrau ym mhob sector.
- Mae'r mwyafrif helaeth (89%) o fentrau ym maes manwerthu heb fod yn hanfodol yng Nghymru yn cael eu dosbarthu fel microfusnesau (cyflogi 0-9 o bobl), sy'n cyfateb yn fras i'r cyfartaledd ar gyfer pob sector. Mae'r dosbarthiad is-ranbarthol yn dilyn dosbarthiad Cymru'n fras.

Effeithiau ar Les

Nodweddion y gweithlu (ystyriaethau cydraddoldeb)

Lefelau incwm: Mae'r rheini sy'n gweithio mewn siopau heb fod yn hanfodol yn tueddu i ennill llawer llai na'r cyflogai cyffredin yng Nghymru, ac o'r herwydd maent yn debygol o ddod o lawer o'r grwpiau mwyaf difreintiedig o ran incwm.

- Yn 2019, canolrif cyflog wythnosol cyfartalog yr HOLL fasnach fanwerthu (ac eithrio cerbydau modur a beiciau modur) oedd £244, a oedd £197 yn llai na'r cyflog canolrifol yng Nghymru, sef £441.²¹
- Amcangyfrifwyd bod o leiaf 80% o weithwyr yn y sector manwerthu yn ennill llai na'r cyflog wythnosol canolrifol.
- O ran tâl fesul awr, y canolrif cyflog cyfartalog ar gyfer masnach manwerthu oedd £8.85/awr, sydd £3.34 yn is na chyfradd canolrif Cymru o £12.19 yr awr.
- Amcangyfrifwyd bod rhwng 80-90% o bobl yn y sector manwerthu yn ennill llai yr awr na chanolrif Cymru.


Mae menywod a charfannau iau yn cael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sector manwerthu heb fod yn hanfodol.

- **Rhywedd:** Yn 2019, roedd 59% o'r bobl a gyflogwyd mewn siopau heb fod yn hanfodol yn fenywaidd, o'i gymharu â'r 47% y mae menywod yn ei gynrychioli o bob gweithiwr yng Nghymru.
- **Oedran:** Roedd hanner yr holl bobl sy'n cael eu cyflogi mewn siopau heb fod yn hanfodol yng Nghymru o dan 35 oed, tra mae'r grŵp oedran hwn yng Nghymru yn cynrychioli 35% o gyfanswm cyflogaeth. Roedd 18% yn 55 oed neu'n hŷn, ac yng Nghymru roedd y grŵp oedran hwn yn cynrychioli 22% o gyfanswm cyflogaeth.
- **Ethnigrwydd:** Roedd 5% o'r bobl a gyflogwyd mewn siopau heb fod yn rhai hanfodol o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, sy'n cyfateb yn fras i gyfran cyflogaeth gyffredinol ar gyfer y grŵp hwn yng Nghymru.
- **Anabled:** Roedd 17% o'r bobl a gyflogwyd mewn siopau heb fod yn hanfodol yn anabl. Ar gyfer Cymru gyfan, roedd 15% o'r holl gyflogaeth yn cael eu hystyried yn anabl.

Mae gweithwyr ym maes manwerthu nad yw'n hanfodol yn debygol o fod wedi'u haddysgu i lefel cymhwyster is na'r boblogaeth o oedolion oed gweithio yn gyffredinol (gweler Error! Reference source not found.). Mae 39% o'r holl oedolion oed gweithio yng Nghymru wedi'u haddysgu hyd at lefel gradd neu uwch, o'i gymharu â 24.5% o weithwyr ym maes manwerthu nad yw'n hanfodol.

²¹ Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ffigur 1: Lefel cymhwyster uchaf



Effeithiau ar les

Mae wedi'i sefydlu bod diffyg cyflogaeth yn gysylltiedig â lefelau lles isel ac iechyd sy'n dirywio. Bydd mwy a mwy o bobl sy'n ymuno â'r farchnad lafur hefyd yn teimlo effeithiau niweidiol. Mae tystiolaeth academaidd hefyd y gall profiadau niweidiol yn y farchnad lafur mewn dirwasgiad gael effeithiau gydol oes ar yr economi, iechyd, lles a hyd yn oed disgwyliad oes pobl ifanc.²²

Mae sawl arolwg yn cael ei gynnal yn rheolaidd sy'n cyfleu lles cymdeithasol a seicolegol yng Nghymru, ac a allai ein galluogi i olrhain newidiadau o ran lles o ganlyniad i Covid-19.

Er enghraifft, fe wnaeth arolwg wythnosol Iechyd Cyhoeddus Cymru o 601 oedolyn yng Nghymru (yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 a 7 Mawrth 2021)²³ ganfod y canlynol:

- Mae 21% o bobl yn poeni 'llawer' am gollu eu swydd neu fethu dod o hyd i un – sy'n gyson ag ymatebion yr wythnosau diwethaf – gyda 18% yn poeni ychydig.
- Mae 33% yn credu y dylid caniatáu i weithwyr nad ydynt yn hanfodol ddychwelyd i'r gwaith o fewn y tair wythnos nesaf
- Mae 31% yn credu y dylai siopau ailagor o fewn y tair wythnos nesaf
- Mae 18% o bobl wedi bod yn poeni 'llawer' am eu sefyllfa ariannol, ac mae 23% arall wedi bod yn poeni 'ychydig', sy'n weddol gyson â chanlyniadau'r wythnosau blaenorol.
- Mae 43% o bobl yn poeni 'llawer' am gollu rhywun oherwydd y feirws, sydd wedi gostwng o'i gymharu â'r wythnosau blaenorol. Mae 58% o'r rheini sydd â phlant yn eu haelwyd yn poeni 'llawer' am les eu plant, sy'n gyson â'r wythnosau blaenorol.

Mae data arolwg ar lefel y DU yn dangos mai pobl sy'n ennill llai na £10,000 y flwyddyn yw'r rhai sydd wedi bod fwyaf tebygol o gollu eu gwaith oherwydd yr

²² Darllenwch: <https://voxeu.org/article/impact-covid-19-chronic-health-uk>

²³ <https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/how-are-you-doing/how-are-we-doing-in-wales-reports/week-48-report-how-are-we-doing-in-wales/>

argyfwng, gyda phobl yn ennill dros £30,000 y flwyddyn lleiaf tebygol. Mae pobl iau hefyd yn debygol o gael budd o agor gweithgarwch economaidd gan fod tystiolaeth ehangach yn dangos bod y grŵp hwn yn dioddef yn anghymesur pan fo'r farchnad lafur dan straen.

EFFEITHIAU AR GYDRADDOLDEB

Manwerthu nad yw'n hanfodol

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol llacio'r cyfyngiadau symud ar fanwerthwyr nad ydynt yn hanfodol?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)	Effeithiau cadarnhaol <i>Disgwylir i ieuencid gael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sector hwn a byddent yn debygol o elwa o gamau i ailgychwyn y sector er mwyn helpu adferiad hirdymor.</i>	<i>Mae'r dystiolaeth a nodir uchod ynghylch effeithiau economaidd a lles yn tynnu sylw at gynrychiolaeth dybiedig y grŵp hwn yn y gweithlu manwerthu nad yw'n hanfodol.</i>	<i>Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chonsortium Manwerthu Cymru a bydd yn cydweithio'n agos â nhw a rhanddeiliaid manwerthu eraill wrth ddatblygu Strategaeth Manwerthu i Gymru.</i>
Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)	<i>Nid oes tystiolaeth y bydd y cyfyngiadau penodol a ystyriwyd yn cael effaith wahanol ar y grŵp gwarchoddedig hwn.</i> Effeithiau negyddol <i>Efallai y bydd effeithiau negyddol os nad fydd yr addasiadau a wneir i gefnogi'r sector yn ystyried anghenion penodol pobl anabl</i>	<i>Mae'r dystiolaeth a nodir uchod ar lesiant ac effeithiau economaidd yn tynnu sylw at yr amcangyfrif o gynrychiolaeth y grŵp hwn yn y gweithlu manwerthu nad yw'n hanfodol.</i>	<i>Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chonsortium Manwerthu Cymru a bydd yn cydweithio'n agos â nhw a rhanddeiliaid manwerthu eraill wrth ddatblygu Strategaeth Manwerthu i Gymru.</i>
Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl trawsryweddol)	<i>Nid oes tystiolaeth y bydd y cyfyngiadau penodol a ystyriwyd yn cael effaith wahanol ar y grŵp gwarchoddedig hwn.</i>		

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol llacio'r cyfyngiadau symud ar fanwerthwyr nad ydynt yn hanfodol?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
Beichiogrwydd a mamolaeth	<i>Nid oes tystiolaeth y bydd y cyfyngiadau penodol a ystyriwyd yn cael effaith wahanol ar y grŵp gwarchoddedig hwn.</i>		
Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)	<i>Nid oes tystiolaeth y bydd y cyfyngiadau penodol a ystyriwyd yn cael effaith wahanol ar y grŵp gwarchoddedig hwn.</i> Effeithiau negyddol <i>Mae'n bosibl bod gweithwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig mewn mwy o berygl o ystyried y dystiolaeth ddiweddar.</i>	<i>Mae'r dystiolaeth a nodir uchod ynghylch effeithiau economaidd a lles yn tynnu sylw at gynrychiolaeth dybiedig y grŵp hwn yn y gweithlu manwerthu nad yw'n hanfodol.</i>	<i>Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Chonsortium Manwerthu Cymru a bydd yn cydweithio'n agos â nhw a rhanddeiliaid manwerthu eraill wrth ddatblygu Strategaeth Manwerthu i Gymru.</i>
Crefydd, cred a diffyg cred	<i>Nid oes tystiolaeth y bydd y cyfyngiadau penodol a ystyriwyd yn cael effaith wahanol ar y grŵp gwarchoddedig hwn.</i>		
Rhyw / Rhywedd	Effeithiau cadarnhaol <i>Disgwylir i fenywod gael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sector hwn a byddent yn debygol o elwa o gamau i ailgychwyn y sector er mwyn helpu adferiad hirdymor.</i>	<i>Mae'r dystiolaeth a nodir uchod ynghylch effeithiau economaidd a lles yn tynnu sylw at gynrychiolaeth dybiedig y grŵp hwn yn y gweithlu manwerthu nad yw'n hanfodol.</i>	<i>Ymdrinnir â phryderon ynghylch gofal plant mewn asesiad llacio ychwanegol.</i>

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol llacio'r cyfyngiadau symud ar fanwerthwyr nad ydynt yn hanfodol?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
	<p>Effeithiau negyddol <i>Fel arfer, mae cyfrifoldebau gofal plant yn disgyn yn anghymesur ar fenywod. Heb y mathau o ofal plant oedd ganddynt cyn yr argyfwng (gan gynnwys drwy addysg) efallai y bydd y grŵp hwn yn wynebu anawsterau.</i></p>		
Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)	<p><i>Nid oes tystiolaeth y bydd y cyfyngiadau penodol a ystyriwyd yn cael effaith wahanol ar y grŵp gwarchoddedig hwn.</i></p>		
Priodas a phartneriaeth sifil	<p><i>Nid oes tystiolaeth y bydd y cyfyngiadau penodol a ystyriwyd yn cael effaith wahanol ar y grŵp gwarchoddedig hwn.</i></p>		
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	<p>Effeithiau cadarnhaol <i>Petai'r mesurau yn sicrhau effaith economaidd gadarnhaol, gallai plant elwa o gynnydd yn incwm y cartref (gyda theuluoedd yn dod yn ôl o gynlluniau ffyrlo).</i></p> <p>Effeithiau negyddol <i>Er bod cyfrifoldebau addysgu gartref yn cael eu gosod ar</i></p>		<p><i>Bydd Llywodraeth Cymru yn ymdrechu i gysylltu â sefydliadau cynrychioliadol cyn yr adolygiad 21 diwrnod nesaf.</i></p> <p><i>Mae'n bwysig dilysu'r ddealltwriaeth o'r effaith ar bobl ifanc sy'n gweithio ym maes manwerthu nad yw'n hanfodol.</i></p>

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol llacio'r cyfyngiadau symud ar fanwerthwyr nad ydynt yn hanfodol?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys dystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
	<i>deuluoedd, efallai y bydd plant y mae eu rhieni'n gweithio yn y sector hwn yn gweld llai ar rieni sy'n gallu goruchwyllo eu hastudiaethau.</i>		
Aelwydydd incwm isel	Effeithiau cadarnhaol <i>Disgwylir i aelwydydd incwm isel gael eu cynrychioli'n anghymesur yn y sector hwn a byddent yn debygol o elwa o gamau i ailgychwyn y sector er mwyn helpu adferiad hirdymor.</i>	<i>Mae'r dystiolaeth a nodir uchod ynghylch effeithiau economaidd a lles yn tynnu sylw at gynrychiolaeth dybiedig y grŵp hwn yn y gweithlu manwerthu nad yw'n hanfodol.</i>	<i>Nid oes camau lliniaru wedi'u nodi</i>

Y Gymraeg

Nid yw caniatáu i siopau nad ydynt yn hanfodol ailagor yn cael effeithiau negyddol amlwg ar y Gymraeg o ystyried mai'r unig effaith y mae hyn yn ei chael yw darparu amgylchedd arall y tu allan i'r cartref lle gall siaradwyr ddefnyddio'r Gymraeg.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Mae'r Erthyglau canlynol wedi cael eu nodi fel rhai sy'n berthnasol i'r asesiad hwn:

- Erthygl 18 – Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.
- Erthygl 27 – Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ymateb i'w hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu teuluoedd na allant fforddio i ddarparu hyn.

Mae'r Erthyglau hyn yn ymwneud yn bennaf â gallu rhieni i weithio a'r gefnogaeth sydd ar gael i'w galluogi i wneud hynny. Bydd ailagor gweithgarwch economaidd yn helpu i sicrhau bod cyfleoedd gwaith ar gael. Ond er mwyn manteisio ar y cyfleoedd hynny, bydd angen cefnogaeth ar rieni gan ysgolion a darparwyr gofal plant y mae eu gweithgareddau wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd. Er mwyn lliniaru hyn, dylid cydlynu gweithgarwch economaidd ehangach drwy ehangu mynediad i leoliadau gofal plant ac addysg.

Yn fwy cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod angen i'r dull cyffredinol o lacio'r cyfyngiadau symud ystyried barn plant (Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w

barn gael ei hystyried). Mae arolwg penodol wedi'i gynnal sy'n cyfrannu at asesu cyfyngiadau'n barhaus.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Effeithiau amgylcheddol gan gynnwys bioamrywiaeth

Mae'r prif sectorau allyriadau sy'n gysylltiedig â llacio cyfyngiadau ar siopau nad ydynt yn hanfodol yn debygol o fod o ganlyniad i ddefnyddio mwy ar drafnidiaeth ac allyriadau o eiddo masnachol. Fodd bynnag, ar gyfer y ddau faes yma, credir bod lefel allyriadau'n dal yn debygol o fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig.

Yn 2017, roedd data o'r Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol, oedd yn awgrymu bod 4.3Mt CO₂e yn cael ei allyrru o adeiladau yng Nghymru, ond dim ond 10% o'r allyriadau hyn yr oedd modd eu priodoli i eiddo busnes (sy'n cynnwys swyddfeydd na fyddai'n cael eu hagor yn sgil llacio'r cyfyngiadau ar siopau heb fod yn hanfodol).²⁴

Mae'r cynnydd mewn allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth o ganlyniad i ganiatáu i siopau nad ydynt yn hanfodol agor yn debygol o fod yn ymylol o gofio mai manwerthu hanfodol yw'r prif reswm pam mae unigolion yn teithio i siopau ar hyn o bryd, yn ogystal â chyn yr argyfwng. Bydd lefelau allyriadau o drafnidiaeth bron yn sicr o fod yn is nag oeddent cyn yr argyfwng, hyd yn oed yn sgil ailagor siopau heb fod yn hanfodol, wrth i Lywodraeth Cymru barhau i annog dulliau teithio mwy egniol ac wrth i bobl beidio â theithio nes eu bod yn teimlo bod y feirws dan reolaeth yn llwyr.²⁵

Prawfesur Polisiâu o Safbwynt Anghenion Cefn Gwlad

Dylid ystyried a allai'r cyfyngiadau 'aros yn lleol' presennol gael effaith economaidd wahaniaethol ar fanwerthwyr nad ydynt yn hanfodol mewn ardaloedd gwledig.

²⁴ Llywodraeth Cymru (2020) Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru – Atodiad B: Dadansoddiad economaidd-gymdeithasol o Gymru 2020

²⁵ Yn yr ymatebion i'r Arolwg o Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, dywedodd 47% y byddai'n well ganddynt aros dan gyfyngiadau symud nes nad oes unrhyw obaith o ddal y feirws, ar gyfer y cyfnod 1 i 7 Mehefin.

GWASANAETHAU CYSWLLT AGOS

EFFEITHIAU AR LES

Mae wedi'i sefydlu bod diweithdra'n gysylltiedig â lefelau lles isel ac iechyd sy'n dirywio. Bydd mwy a mwy o bobl sy'n ymuno â'r farchnad lafur yn teimlo effeithiau niweidiol os byddant yn ymuno â'r farchnad lafur yn ystod dirywiad economaidd. Mae tystiolaeth academaidd y gall profiadau niweidiol yn y farchnad lafur mewn dirwasgiad gael effeithiau gydol oes ar yr economi, iechyd, lles a hyd yn oed disgwyliad oes pobl ifanc.²⁶

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Effeithiau economaidd cyffredinol

Fel y nodir uchod, mae pandemig y coronafeirws wedi cael effaith ddifrifol ar berfformiad economaidd

Effaith a phwysigrwydd penodol i'r sector

Yn 2018, roedd yr holl sector *Gwasanaethau Personol Eraill* yn cyfrannu £800 miliwn o werth ychwanegol gros (GVA) i economi Cymru, a oedd gyfwerth â 1.2% o gyfanswm y GVA ar gyfer yr un flwyddyn.

Yn anffodus, nid yw'r data o Arolwg Effaith Covid-19 ar Fusnesau (BICS)²⁷ y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi'i ddadansoddi ar lefel sy'n ein galluogi ni i weld yr effaith fras ar wasanaethau cyswllt agos. Fodd bynnag, o ystyried y cyfyngiadau ar y sector a'i nodweddion (lle mae cyswllt personol agos yn angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaeth) mae'n debygol o fod ymysg y rhai sy'n dioddef fwyaf, ynghyd â'r sectorau *lletygarwch a'r celfyddydau, adloniant a hamdden*.

Natur llawer o'r busnesau sy'n gweithredu yn y sector gwasanaethau cyswllt agos yw bod llawer o'r galw (a'r referniw cysylltiedig) a gollwyd ers i'r cyfyngiadau gael eu rhoi ar waith yn annhebygol o gael ei adfer yn ystyrllon. Mae'r busnes a gollwyd yn y sector hwn yn annhebygol o gynyddu a chael ei ryddhau (galw wedi cronni) mewn ffyrdd y mae modd eu rhagweld ar gyfer sectorau eraill sy'n gwerthu nwyddau a/neu wasanaethau. Mae'n dal yn debygol y bydd rhywfaint o anesmwythder ynghylch ailafael mewn gweithgareddau arferol hefyd. Fodd bynnag, rydym hefyd yn rhagweld y gallai mynediad at wasanaethau cyswllt agos gael effaith gadarnhaol ar lesiant llawer o bobl.

²⁶ Darllenwch: <https://voxeu.org/article/impact-covid-19-chronic-health-uk>

²⁷

<https://www.ons.gov.uk/economy/economicoutputandproductivity/output/datasets/businessinsightsandimpactontheuconomy>

Cyflogaeth ac Effaith ar Incwm

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau presennol ar wasanaethau cyswllt agos yn cael effeithiau dosbarthiadol negyddol gan fod y sector yn un sy'n cyflogi mwy o fenywod, pobl ifanc ac unigolion o grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae llawer o'r gweithwyr yn y sector hwn ymysg y rhai sydd ar y cyflogau isaf yng Nghymru ac amcangyfrifir bod y cyflog canolrifol yn tua £9 (gweler yr adran ar effeithiau cydraddoldeb isod am ragor o fanylion). I'r rheini sydd ar ffyrlo, mae'n debygol felly bod eu hincwm wedi cael ei ostwng i lefelau o dan isafswm cyflog a chyflog byw cenedlaethol y DU i bob pwrpas²⁸.

EFFEITHIAU AR YR AMGYLCHEDD

Er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo teithio llesol fel dewis yn lle mathau eraill o deithio yn ystod pandemig y coronafeirws a thu hwnt, mae'n debygol y bydd agor y sector yn ehangach yn ehangu'r rhesymau i aelodau'r cyhoedd deithio mewn cerbyd preifat (yn enwedig felly oherwydd cyfyngiadau ar gapasiti trafndiaeth gyhoeddus effeithiol). Er nad oes rhagolygon ar gael ynglŷn â'r effaith ganlyniadol ar ansawdd aer, disgwylir y bydd yn cael effaith negyddol o'i chymharu â'r misoedd diwethaf, lle credwyd bod ansawdd yr aer wedi gwella. Am y rheswm hwn, mae swyddogion yn yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro'r effeithiau ar ansawdd yr aer sydd wedi codi ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi'r effeithiau a bydd y gwaith hwn yn llywio polisi'r dyfodol gyda golwg ar gynnal gwelliannau i ansawdd aer ar gyfer y dyfodol, cyn belled ag y bo modd.

ASESIADAU O'R EFFAITH

Effeithiau ar gydraddoldeb

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchoddedig wedi'i nodi isod. Mae'r cyfyngiadau ar y sector hwn wedi cael effaith anghymesur ar bobl ifanc, benywaidd ac o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu, sydd â mwy o gynrychiolaeth yn y diwydiant gwasanaethau cyswllt agos.

²⁸ Mae Cyflog Byw Cenedlaethol y DU o Ebrill 2020 ymlaen yn £8.72 i'r rheini sydd dros 25 oed. Mae Isafswm Cyflog Cenedlaethol y DU yn £8.20 i bobl 21-24 oed, £6.45 i bobl 18-20 oed, £4.55 i bobl ifanc dan 18 oed, a £4.15 i brentisiaid.

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)	<p>Cadarnhaol: Mae tystiolaeth yn awgrymu bod yr aelodau ieuengaf o'r gweithlu wedi'u cynrychioli'n anghymesur yn y sector ac felly bod y cyfyngiadau cyfredol yn fwy tebygol o effeithio arnynt. Bydd caniatáu i'r sector ailagor yn ehangach felly'n debygol o gael effeithiau cadarnhaol o ran tegwch, yn enwedig gan ystyried bod nifer yn y grŵp hwn ymysg y rheini y mae dirywiadau economaidd wedi effeithio arnynt waethaf yn hanesyddol.</p> <p>Negyddol: Mae'r risgiau o ganlyniadau iechyd negyddol yn sgil dal Covid-19 yn cynyddu ag oedran. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector.</p>	Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn dangos bod 21% o weithwyr mewn gwasanaethau cyswllt agos yng Nghymru o dan 25 oed (a dim ond 12% o'r gweithlu mae'r grŵp oedran hwn yn ei gynrychioli). Mae pobl rhwng 25 a 34 oed yn cynrychioli 35% o'r rheini sy'n gweithio yn y sector (sydd eto'n uwch na chynrychiolaeth y garfan oedran hon yn y gweithlu, sef 22%).	<p>Mae canllawiau a mesurau lliniaru wedi cael eu hanelu at leihau'r risg o drosglwyddo ymysg pob grŵp; cwsmeriaid a staff.</p> <p>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae gofyn i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol.</p>

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
<i>Anabledd (meddylwch am wahanol fathau o anabledd)</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	<i>Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu nad oes cynrychiolaeth anghyfrannol o bobl anabl yn y sector hwn yng Nghymru, gyda 15% o'r gweithlu yn cael eu hystyried yn anabl (sydd yr un fath â'u cynrychiolaeth yn y gweithlu ehangach).</i>	Amh
<i>Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl trawsryweddol)</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	Amh	Amh
<i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	Amh	Amh

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
<i>Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)</i>	<p>Cadarnhaol: Mae tystiolaeth yn awgrymu bod pobl o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y gweithlu wedi'u cynrychioli'n anghymesur yn y sector ac felly bod y cyfyngiadau cyfredol yn fwy tebygol o effeithio arnynt. Felly bydd caniatáu i'r sector ailagor yn ehangach yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol o ran tegwch.</p> <p>Negyddol: Mae'n bosibl bod grwpiau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn wynebu risg anghymesur o ganlyniadau iechyd negyddol pe baent yn dal Covid-19. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector.</p>	<i>Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 13% o weithwyr mewn gwasanaethau cyswllt agos yng Nghymru yn bobl o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (a dim ond 5% o'r gweithlu yng Nghymru mae'r grŵp hwn yn ei gynrychioli).</i>	<p><i>Mae canllawiau a mesurau lliniaru wedi cael eu hanelu at leihau'r risg o drosglwyddo ymysg pob grŵp; cwsmeriaid a staff.</i></p> <p><i>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae gofyn i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol.</i></p>
<i>Crefydd, cred a diffyg cred</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	<i>Amh</i>	<i>Amh</i>

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
<i>Rhyw / Rhywedd</i>	Cadarnhaol: Mae tystiolaeth yn awgrymu bod menywod wedi'u cynrychioli'n anghymesur yn y sector ac felly mae'r cyfyngiadau cyfredol yn fwy tebygol o effeithio arnynt. Dylai caniatáu i'r sector ailagor yn ehangach drwy lacio cyfyngiadau felly gael effeithiau cadarnhaol o ran tegwch.	Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 79% o weithwyr mewn gwasanaethau cyswllt agos yng Nghymru yn fenywod, er mai dim ond 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru mae menywod yn ei gynrychioli.	Heb ganfod effaith negyddol.
<i>Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	<i>Amh</i>	<i>Amh</i>
<i>Priodas a phartneriaeth sifil</i>	Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol.	<i>Amh</i>	<i>Amh</i>
<i>Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</i>	Negyddol: Gallai oedolion a gyflogir yn y sector Gwasanaethau Cyswllt Agos fod â chyfrifoldebau gofal plant.	Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2018 yn awgrymu bod gan 4,600 o'r oedolion sy'n gweithio yn y sector Gwasanaethau Cyswllt Agos blant o dan 16 oed. Fodd bynnag, dylid nodi y bydd nifer o weithwyr wedi dychwelyd i'r gwaith yn barod wrth i gyfyngiadau gael eu llacio ar drinwyr gwallt a barbwyr ar 15 Mawrth.	Mae Llywodraeth Cymru wedi llacio'r cyfyngiadau ar addysg ar y safle i blant iau mewn ysgolion, a fydd yn lleddfu'r pwysau ar deuluoedd lle gallai fod angen i'r oedolion ddychwelyd i safleoedd ffisegol i weithio.

Grŵp neu nodwedd warchoddedig	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?
Aelwydydd incwm isel	<p>Cadarnhaol: Drwy ganiatáu i aelodau o'r sector hwn ddychwelyd i weithio, gallai hynny leihau colledion swyddi a chynyddu incwm aelwydydd i'r rheini a ddaw o'r aelwydydd tlotaf.</p>	<p>Mae data dros dro o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn darparu amcangyfrifon ar gyfer cyflog gros fesul awr a fesul wythnos, yn ôl codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2 ddigid yng Nghymru. Ar gyfer Gwasanaethau Personol Eraill (cod SIC 96), y cyflog gros canolrifol yr awr oedd £8.98 – £3.21 yn is na chanolrif Cymru ar gyfer holl swyddi gweithwyr, sef £12.19. O ran cyflog gros yr wythnos yn y sector hwn, £287.10 yw'r canolrif, tua £153.70 yn is na chanolrif Cymru.</p> <p>Gan ddefnyddio'r un data, amcangyfrifir bod o leiaf 70% o weithwyr Gwasanaethau Personol Eraill yn cael cyflog gros is yr awr na chanolrif Cymru.</p>	Heb ganfod effeithiau negyddol.

Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i gynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Er gwaethaf y cyfyngiadau parhaus ar y cyfyngiadau symud yn gyffredinol, gallai'r cynnig hwn effeithio ar y canlynol:

Hawliau Dynol	Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?	Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)	Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?
<i>Mae Erthygl 11 o'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol yn cydnabod hawl pawb i gael safon byw ddigonol ar ei gyfer ei hun a'i deulu, gan gynnwys cartref a digon o fwyd a dillad, ac i sicrhau bod ei amodau byw yn gwella'n barhaus.</i>	<i>Cadarnhaol: bydd ailagor y sector yn ehangach yn golygu bod llawer o weithwyr – a allent fod yn ennill llai na'r Isafswm Cyflog a'r Cyflog Byw Cenedlaethol oherwydd eu bod yn cael 80% o'r cyflog roeddent yn ei gael cyn yr argyfwng – yn dychwelyd i'r gwaith.</i>	<i>Mae data incwm ar gyfer yr Arolwg Blyneddol o Oriau ac Enillion yn dangos bod gweithwyr yn y sector hwn yn ennill llai na'r cyflog cyfartalog (canolrif) yng Nghymru a bod llawer ohonynt yn debygol o fod yn ennill llai na'r Isafswm Cyflog/Cyflog Byw Cenedlaethol oherwydd eu bod ar ffyrlo.</i>	<i>Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig.</i>

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Dylai agor y sector gael effaith gadarnhaol yn gyffredinol o ran incwm rhieni:

- **Erthygl 18** – Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.
- **Erthygl 27** – Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ymateb i'w hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio i ddarparu hyn

Y Gymraeg

Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol o bwys ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal ac i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru ei hun i gael miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a nodir yn **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg**, yn pwysleisio pa mor bwysig yw hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg, yn ogystal â chynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae ail thema Cymraeg 2050, sef **Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg**, yn nodi: *“Mae angen cyfleoedd ar bobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrediad o sefyllfaoedd sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn eu ffordd o fyw. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd ar lefel y teulu, yn y gweithle, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol, neu fel aelodau o rwydweithiau a chymunedau diddordeb ehangach a all fod ar wasgar ym mhedwar ban byd”*. Gallai caniatáu i'r sector hwn ailagor yn ehangach ddarparu cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg.